



WALES AUDIT OFFICE  
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru  
Auditor General for Wales

# Cynllunio i Ryddhau Cleifion – Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Blwyddyn archwilio: 2016-17

Dyddiad cyhoeddi: Rhagfyr 2017

Cyfeirnod y ddogfen: 180A2017-18

Lluniwyd y ddogfen hon yn rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru - [swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru](mailto:swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru).

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Urvisha Perez a gyflawnodd y gwaith hwn.



# Cynnwys

Mae gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau datblygedig ar gyfer gwella cynllunio i ryddhau cleifion, ond mae'r perfformiad yn amrywio ac mae lle i wella'r polisi, y llwybrau a'r hyfforddiant ar gyfer rhyddhau cleifion.

## Adroddiad cryno

Cefndir	4
Y Prif Ganfyddiadau	5
Argymhellion	7

## Adroddiad manwl

Cynllunio: Mae gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau clir ar gyfer gwella cynllunio i ryddhau cleifion, ond mae lle i wella'r polisi rhyddhau ac o ran cofnodi llwybrau rhyddhau	8
--	---

Trefniadau i gefnogi rhyddhau cleifion: Mae timau a arweinir gan nyrsys ar gael i gefnogi'r broses ryddhau, ond dim ond o ddydd Llun i ddydd Gwener; mae angen gwella hyfforddiant staff, ymwybyddiaeth o'r polisi rhyddhau ac amseroedd aros lofeydd rhyddhau	17
--	----

Monitro ac adrodd: Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau craffu cryf, ond mae perfformiad yn amrywio ac mae lle i wella'r wybodaeth a adroddir wrth y bwrdd	28
---	----

## Atodiadau

Atodiad 1 – Canfyddiadau meintiol Uned Gyflawni GIG Cymru o archwiliadau o gynlluniau rhyddhau yn ysbytai aciwt y Bwrdd Iechyd.	37
Atodiad 2 – dull archwilio	40
Atodiad 3 – ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i'r argymhellion	42
Atodiad 4 – gweithgarwch a gyflawnir gan y timau cyswllt rhyddhau cleifion	46

# Adroddiad cryno

## Cefndir

- 1 Proses barhaus i ganfod y gwasanaethau a'r gefnogaeth y gallai unigolyn fod eu hangen wrth adael yr ysbyty (neu wrth symud rhwng ysbytai) yw cynllunio i ryddhau. Y nod yw sicrhau bod y gofal cywir ar gael, yn y man cywir, ac ar yr amser cywir. Mae proses ryddhau effeithiol ac effeithlon yn ffactor pwysig wrth sicrhau llif cleifion da ac yn allweddol i sicrhau gofal cleifion da a defnydd effeithlon ac effeithiol o adnoddau'r GIG. Llif cleifion yw'r llif o gleifion rhwng staff, adrannau a sefydliadau eraill ar hyd llwybr gofal, o fod wedi cyrraedd yr ysbyty hyd at ryddhau neu drosglwyddo.
- 2 Mae gwelyau mewn ysbytai o dan bwysau cynyddol, yn enwedig gan fod 1,800 o welyau wedi cael eu colli ar draws Cymru dros y chwe blynedd diwethaf. Gall cynllunio gwael wrth ryddhau cleifion olygu arosiadau hwy diangen, sydd yn eu tro yn amharu ar rannau eraill o'r ysbyty, gan greu amseroedd aros hirach mewn adrannau damweiniau ac achosion brys neu ganslo derbyniadau cynlluniedig.
- 3 Bob blwyddyn, ledled Cymru bydd cleifion yn cael eu derbyn a'u rhyddhau o'r ysbyty tua 750,000 o weithiau. Mae'r broses ryddhau yn gymharol syml i 80% o'r cleifion sy'n gadael yr ysbyty. Bydd y cleifion hyn yn dychwelyd adref gyda mân anghenion iechyd neu ofal cymdeithasol, os o gwbl, heb fod angen cynlluniau na darpariaeth gymhleth. I'r 20% o gleifion sy'n weddill, mae cynllunio i ryddhau yn broses fwy cymhleth oherwydd anghenion iechyd ac/neu ofal cymdeithasol parhaus, a allai fod yn anghenion tymor byr neu dymor hir.
- 4 Yn achos cleifion unigol, y mae llawer ohonynt yn 65 oed neu'n hŷn, gall oedi wrth ryddhau o'r ysbyty arwain at ganlyniadau salach yn sgil colli annibyniaeth, hyder a'r gallu i symud, yn ogystal â risg o gael heintiau yn yr ysbyty, o ail-dderbyn i'r ysbyty neu'r angen am gymorth hirdymor.
- 5 Er gwaethaf y lluo o ganllawiau i gefnogi cynlluniau rhyddhau da,<sup>1 2 3</sup> dangosai gwaith a gyflawnwyd yn 2016 gan Uned Gyflawni (yr Uned Gyflawni) GIG Cymru yn holl ysbytai Cymru fod cyfleoedd i wella'r broses cynllunio i ryddhau cleifion, i ryddhau capasiti sylweddol i gleifion mewnol ac i wella profiadau a chanlyniadau cleifion. Roedd meysydd penodol i'w gwella yn cynnwys:
  - cydweithio'n well â gwasanaethau cymunedol;
  - nodi'n gliriach ac yn gynharach y cymhlethdod yn gysylltiedig â rhyddhau o'r ysbyty, fel bo modd hwyluso'r broses ryddhau;
  - mwy o eglurder ynghylch llwybrau rhyddhau; a
  - gwell gwybodaeth a chyfathrebu â chleifion a'u teuluoedd.

<sup>1</sup> Cylchlythyr Iechyd Cymru (2005) 035, Hospital Discharge Planning Guidance, 2005/035 [Saesneg yn unig]

<sup>2</sup> Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd, Passing the Baton, 2008

<sup>3</sup> Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Rhagoriaeth Glinigol (NICE), Transition between inpatient hospital settings and community or care home settings for adults with social care needs, 2015

- 6 Asesodd yr Uned Gyflawni y dystiolaeth ysgrifenedig mewn nodiadau achos yn erbyn gofynion penodol a nodwyd yn 'Passing the Baton'<sup>2</sup>. Dengys y canfyddiadau ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (y Bwrdd Iechyd) fod y broses rhyddhau cleifion yn amrywio ac yn wael gan amlaf o'i hasesu yn erbyn yr arfer a ddisgwylid. Dangosir y canfyddiadau'n fanylach yn **Atodiad 1**.
- 7 Mae llawer o'r materion a amlygwyd gan yr Uned Gyflawni wedi bod yn themâu cyffredin ers blynyddoedd, a phrin yw'r dystiolaeth i awgrymu bod prosesau cynllunio i ryddhau cleifion yn gwella go iawn. Gan fod y galw am wasanaethau ysbyty ar gynnydd a'r capasiti gwelyau yn parhau i ostwng, penderfynodd yr Archwilydd Cyffredinol ei bod hi'n bryd adolygu a yw trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd yn ddigon cadarn i sicrhau bod y gwelliannau angenrheidiol yn cael eu cyflwyno wrth gynllunio i ryddhau cleifion.
- 8 Archwiliai'r adolygiad hwn a oedd gan y Bwrdd Iechyd drefniadau llywodraethu ac atebolrwydd mewn perthynas â chynllunio i ryddhau. Ceir manylion y fethodoleg archwilio yn **Atodiad 2**. Yn y gwaith, gofynnwyd yn benodol a oedd y Bwrdd Iechyd:
- wedi sefydlu fframwaith cynllunio strategol cadarn er mwyn cynllunio i ryddhau cleifion;
  - wedi gwneud trefniadau effeithiol i fonitro ac adrodd ar gynlluniau i ryddhau cleifion; ac
  - wedi cymryd camau priodol i reoli cynlluniau rhyddhau cleifion a sicrhau gwelliannau.
- 9 Ochr yn ochr â'r gwaith hwn, mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd wedi bod yn cynnal adolygiad o waith addasu tai. Mae'r adolygiad hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, o ystyried cyfrifoldebau'r naill a'r llall dros reoli a dyrannu Grantiau cyfleusterau i'r Anabl, Grantiau Addasiadau Ffisegol a ffrydiau ariannu eraill a ddefnyddir i ariannu addasiadau. Ceir cysylltiadau clir rhwng hyn a chynlluniau rhyddhau cleifion o ystyried y ffaith y gall oedi wrth osod neu ariannu addasiadau tai arwain at oedi wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty. Yn ogystal â hyn, mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi bod yn archwilio ansawdd y llif cyfathrebu a gwybodaeth rhwng gofal sylfaenol a gofal eilaidd yng nghyswllt rhyddhau cleifion. Bwriedir cyhoeddi'r adroddiadau, sy'n nodi canfyddiadau'r ddau adolygiad, yn rhyngor yr hydref 2017.

## Y Prif Ganfyddiadau

- 10 Dyma ein casgliad cyffredinol: Mae gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau datblygedig ar gyfer gwella cynllunio i ryddhau cleifion, ond mae'r perfformiad yn amrywio ac mae lle i wella'r polisi, y llwybrau a'r hyfforddiant ar gyfer rhyddhau cleifion. Yn y paragraffau isod, rydym wedi nodi'r prif resymau dros ddod i'r casgliad hwn.
- 11 **Cynllunio:** Mae gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau clir ar gyfer gwella cynllunio i ryddhau cleifion, ond mae lle i wella o ran y polisi rhyddhau ac o ran cofnodi llwybrau rhyddhau. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:
- Mae gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau clir i wella cynllunio i ryddhau cleifion, sydd yn seiliedig ar adolygiadau mewnol ac allanol.

- Mae polisi rhyddhau'r Bwrdd Iechyd, sydd yn cael ei adolygu, wedi'i ddatblygu'n rhesymol ond mae lle i wella.
  - Mae llwybrau rhyddhau ar waith ond nid oedd tystiolaeth o ddogfennau i gefnogi staff i'w gweithredu.
- 12 **Trefniadau i gefnogi rhyddhau cleifion:** Mae timau a arweinir gan nyrsys ar gael i gefnogi'r broses ryddhau, ond dim ond o ddydd Llun i ddydd Gwener; mae angen gwella hyfforddiant staff, ymwybyddiaeth o'r polisi rhyddhau ac amseroedd aros lolfeydd rhyddhau. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:
- Mae'r adnoddau rhyddhau penodol wedi'u harwain gan nyrsys, ond nid ydynt ond ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener, ac fe geir pryderon ynghylch amseroedd aros hir mewn lolfeydd rhyddhau.
  - Nid oes hyfforddiant ar gynllunio i ryddhau cleifion ac mae'r ymwybyddiaeth o'r polisi rhyddhau yn wael. Fodd bynnag, mae'r staff yn gwybod o le i gael gwybodaeth am wasanaethau cymunedol.
- 13 **Monitro ac adrodd:** Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau craffu cryf, ond mae perfformiad yn amrywio ac mae lle i wella'r wybodaeth a adroddir wrth y bwrdd. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:
- Er bod strwythurau llywodraethu partneriaethau yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd, mae gan y Bwrdd Iechyd linellau atebolrwydd clir a threfniadau rheolaidd i graffu ar berfformiad.
  - Mae'r Bwrdd Iechyd yn casglu data cynhwysfawr ar berfformiad, ac er bod aelodau'r bwrdd yn teimlo eu bod yn derbyn digon o wybodaeth, byddent yn elwa ar fwy o ddata ar lif cleifion.
  - Mae'r data'n dangos bod perfformiad yn amrywio, ac er bod prosesau rhyddhau'n cael eu gwella, gallai fod yn rhy fuan i weld y manteision.

# Argymhellion

## Dangosyn 1: argymhellion

Nodir yn y tabl yr argymhellion sy'n deillio o'r archwiliad cynllunio i ryddhau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Mae ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd, lle nodir sut y mae'n bwriadu ymateb i'r argymhellion hyn, wedi'i gynnwys yn **Atodiad 3**.

Argymhellion	
A1	<b>Llwybrau rhyddhau:</b> Er bod llwybrau rhyddhau ar waith, nid oedd tystiolaeth o ddogfennau i gefnogi staff i'w gweithredu. Dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu offer cefnogol ar ffurf briodol ar gyfer y prif lwybrau rhyddhau, er enghraifft siartiau llif neu dablau. Dylai'r dogfennau gael eu datblygu ar y cyd â sefydliadau partner, dylid eu hatodi i'r polisi rhyddhau diwygiedig a'u harddangos mewn lle amlwg.
A2	<b>Lolfa ryddhau:</b> Mynegodd staff ward bryderon ynglŷn â'r ffaith bod cleifion yn disgwyl am amser hir mewn lolfeydd rhyddhau, a hynny'n bennaf oherwydd problemau'n gysylltiedig â thrafnidiaeth ar gyfer cleifion nad ydynt yn achosion brys, a chan nad oedd y staff yn archebu'r math cywir o drafnidiaeth. Dylai'r Bwrdd Iechyd: <ul style="list-style-type: none"><li>a) Ddatblygu canllawiau clir i nyrsys ar archebu trafndiaeth.</li><li>b) Datblygu trefniadau gwell i gyfathrebu â'r gwasanaeth ambiwlans ar gyfer achosion nad ydynt yn rhai brys, fel bo modd i nyrsys roi gwybod i gleifion pa mor hir y maent yn debygol o orfod aros.</li></ul>
A3	<b>Hyfforddiant ar gynllunio i ryddhau cleifion:</b> Gwelsom nad oedd rhaglenni ymsefydlu ar gyfer staff nyrsio, meddygol a therapi yn cynnwys hyfforddiant ar gynllunio i ryddhau cleifion. Dylai'r Bwrdd Iechyd: <ul style="list-style-type: none"><li>a) Gynnwys cynllunio i ryddhau cleifion yn rhan o raglenni ymsefydlu'r holl staff fydd yn ymwneud â chynllunio i ryddhau cleifion.</li><li>b) Cynnig hyfforddiant gloywi rheolaidd.</li><li>c) Er cysondeb, ystyried cynnig hyfforddiant i staff o sefydliadau partner eraill, sy'n cymryd rhan yn y broses o gynllunio i ryddhau cleifion.</li></ul>
A4	<b>Gwybodaeth am wasanaethau cymunedol:</b> Gwelsom fod y Bwrdd Iechyd yn mynd ati'n rheolaidd i gasglu gwybodaeth am wasanaethau cymunedol; ond nid yw'r wybodaeth honno'n cynnwys amseroedd aros. Dylai'r Bwrdd Iechyd ystyried cynnwys gwybodaeth am amseroedd aros ar gyfer asesiadau anghenion ac i gychwyn gwasanaethau.



# Adroddiad manwl

## Mae gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau clir ar gyfer gwella cynllunio i ryddhau cleifion, ond mae lle i wella'r polisi rhyddhau ac o ran cofnodi llwybrau rhyddhau

### Mae gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau clir i wella cynllunio i ryddhau cleifion, sydd yn seiliedig ar adolygiadau mewnol ac allanol


- 14 Ym mis Hydref 2016, ysgrifennodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon at holl Gadeiryddion y GIG er mwyn cadarnhau ei fod yn disgwyl i gynlluniau gwella gofal heb ei drefnu yn cynnwys cynlluniau i wella prosesau rhyddhau cleifion. Mae Fframwaith Cynllunio GIG Cymru<sup>4</sup> hefyd yn cyfleu'n glir y dylai sefydliadau nodi sut mae eu cynlluniau yn cefnogi ac yn gwella llif cleifion. Dylid canolbwyntio ar leihau nifer y bobl oedrannus a bregus sy'n cael eu derbyn, drwy asesu ac ymyrryd mewn modd rhagweithiol, a rhyddhau cleifion mor fuan ag sy'n briodol o safbwynt clinigol, heb unrhyw oedi diangen.
- 15 Yn rhan o'n gwaith archwilio, buom yn asesu'r graddau y mae cynllunio i ryddhau cleifion yn rhan o ymagwedd strategol ehangach i wella llif cleifion. Mae gan y Bwrdd Iechyd dri phrif gynllun ar gyfer gwella llif cleifion a chynllunio i ryddhau cleifion. Dyma nhw: y Cynllun Gofal Brys, cynllun gweithredu Oedi wrth Drosglwyddo Gofal Cymuned Iechyd a Gofal Cymdeithasol Gwent a'r Cynllun Gaeaf Integredig. Ceir cysylltiadau rhwng y cynlluniau ond mae eu ffocws yn amrywio.
- Mae Cynllun Gweithredu OwDG Cymuned Iechyd a Gofal Cymdeithasol Gwent yn canolbwyntio ar atal derbyniadau i'r ysbty ac ar leihau achosion o OwDG. Mae'r cynllun yn manylu ar fentrau, sydd wedi'u seilio ar osgoi derbyniadau, adnabod cleifion ag anghenion cymhleth yn fuan, cynllunio i ryddhau cleifion, gwella darpariaeth gofal a'r rheolaeth arno, a gwneud y defnydd mwyaf posib o'r sector annibynnol.
  - Mae'r Cynllun Gofal Brys yn canolbwyntio ar wella prosesau i gleifion mewnol, yn enwedig targedau haen un ar gyfer amseroedd aros cleifion ac amseroedd trosglwyddo ambiwlans.
  - Mae Cynllun Gaeaf Integredig yn disgrifio'r ymagwedd gydgyssylltiedig y bydd y Bwrdd Iechyd a'i bartneriaid yn ei mabwysiadu i reoli straen y gaeaf. Datblygwyd y cynllun mewn partneriaeth â phum awdurdod lleol Gwent ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru (WAST).
- 16 Datblygwyd y Cynllun Gofal Brys ym mis Medi 2016, felly roedd y cynllun yn gymharol newydd ar adeg ein hadolygiad. Mae'r cynllun yn seiliedig ar yr hyn a ddysgwyd yn sgil adolygiadau mewnol ac allanol, sef asesiad mewnol y Bwrdd Iechyd o'i berfformiad, adolygiad yr Uned Gyflawni o'r broses o gynllunio i ryddhau cleifion a'r adolygiad o Gynllun Gaeaf 2015-16. Mae'r rhesymau dros newid wedi'u nodi'n glir yn y cynllun, sef y ffaith mai ychydig o dystiolaeth a welwyd wrth werthuso prosiectau peilot blaenorol, diffyg cysondeb wrth gyflawni gwaith gwella a'r angen i dargedu perfformiad gwael. Mae'r ddogfen hefyd yn cyfeirio at yr angen i gyflenwi proffil gofal brys y Bwrdd Iechyd, fel y nodir yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI).

<sup>4</sup> Llywodraeth Cymru, [Fframwaith Cynllunio'r GIG 2017-20, 2016](#)

- 17 Mae'r Cynllun Gofal Brys wedi'i rannu i dri cham. Enillion cyflym yw mentrau cam un, ac maent yn cynnwys:
- gweithredu rhaglen y ward enghreifftiol er mwyn sicrhau bod y pecyn llif cleifion yn cael ei weithredu mewn modd, fydd wedyn yn lleihau hyd yr arhosiad;
  - recriwtio tîm o gydgyssylltwyr rhyddhau cleifion er mwyn gwella trefniadau i ryddhau cleifion o wardiau a lleihau achosion o oedi;
  - cyflogi rheolwyr llif gweithredol i wella'r rheolaeth ar y safle; a
  - gosod system sy'n pennu gwerth amser cleifion, 'dyddiau coch a gwyrdd'<sup>5</sup>.
- 18 Mae ail gam y cynllun yn dangos meysydd lle nodwyd a datblygwyd cyfleoedd i wella, ond lle mae angen gwaith datblygu pellach cyn y gellir eu gweithredu. Mae'r mentrau a restrir sy'n ymwneud yn benodol â chynllunio i ryddhau cleifion, yn cynnwys cynllunio i ryddhau ar y penwythnos, llythyrau rhyddhau a gweithdrefnau gweithredu safonol ar gyfer dyrannu gofal cymdeithasol, asesu a chadarnhau dyddiadau rhyddhau.
- 19 Mae'r ddau gam cyntaf yn ymdrin â materion gofal brys lle mae'r achos eisoes yn hysbys, ond mae cam tri yn canolbwyntio ar ddatrys yr hyn sydd wrth wraidd materion lle na wyddys beth yw'r achos.
- 20 Gofynnwyd i sefydliadau'r GIG pa ffactorau sy'n cyfrannu at oedi cyn rhyddhau neu drosglwyddo gofal, er mwyn canfod i ba raddau y mae eu cynlluniau'n anelu i ymdrin â'r ffactorau sy'n achosi'r mwyaf o broblemau. Yn **Nangosyn 2** gwelir bod prinder gofalwyr cartref, prinder gwelyau mewn cartrefi gofal i bobl â dementia, a phrinder capasiti ar draws gwasanaethau ailalluogi cymunedol yn ffactorau o bwys sydd yn achosi oedi wrth ryddhau cleifion neu drosglwyddo gofal.

<sup>5</sup>Diwrnod coch yw pan fydd claf yn disgwyl gweithred er mwyn bwrw ymlaen â'i ofal ac/neu lle gallai'r weithred hon ddigwydd y tu allan i'r lleoliad cyfredol. Nid yw diwrnod coch, felly, o unrhyw werth i'r claf. Mae diwrnod gwyrdd o werth i'r claf, er enghraifft, efallai y bydd y claf wedi derbyn ymyrraeth neu ofal na ellir ond ei ddarparu mewn gwely yn yr ysbyty.

**Dangosyn 2: ffactorau sy'n cyfrannu at oedi wrth ryddhau cleifion neu drosglwyddo gofal ar draws sefydliadau'r GIG**



Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o wybodaeth am gynllunio i ryddhau cleifion a ddychwelwyd gan gyrrff y GIG yn 2017<sup>6</sup>

- 21 Adroddodd y Bwrdd Iechyd fod y problemau canlynol yn aml yn achosi oedi:
- yr amser a gymerir i gyflawni addasiadau tai graddfa fawr;
  - prinder gofalwyr cartref;
  - prinder gwelyau mewn cartrefi gofal i bobl â dementia; a
  - phrinder capasiti ar draws gwasanaethau ailalluogi cymunedol.
- 22 Yn ogystal â hyn, tynnodd y Bwrdd Iechyd sylw at broblemau fel teuluoedd nad ydynt yn nodi lle mewn cartref gofal oherwydd diffyg dewis (yn enwedig nyrsio EMI), ac am eu bod yn aros nes bo'r cyllid ar gyfer gofal iechyd parhaus (GIP) wedi'i gytuno. Mae'r rheswm diwethaf yn arbennig o broblemus pan nad yw asesiadau'n cynnwys digon o dystiolaeth i gefnogi cymhwystra am ofal iechyd parhaus. Bydd dyddiau hefyd yn cael eu colli wrth atgyfeirio a dyrannu gweithwyr cymdeithasol oherwydd problemau capasiti o fewn y gwasanaethau cymdeithasol, a chan nad yw staff yn dilyn y prosesau cywir, a hynny o bosib am nad yw'r staff yn deall prosesau cynllunio i ryddhau.

<sup>6</sup> Cawsom ymatebion gan y saith bwrdd iechyd a chan Ymddiriedolaeth GIG Felindre. Mae Byrddau Iechyd Betsi Cadwaladr a Hywel Dda yn trefnu gwasanaethau cynllunio i ryddhau cleifion ar sail ardal leol neu ddaearyddiaeth, felly mae gennym fwy nag un ffurflen ddata ar gyfer y ddau fwrdd iechyd hyn.

- 23 Mae camau o fewn y cynllun gweithredu OwDG yn ceisio ymdrin â nifer o'r materion a godwyd. Er enghraifft, er mwyn lleihau atgyfeiriadau a gwella effeithlonrwydd, mae therapydd galwedigaethol a gweithiwr cymdeithasol yn gweithio ochr yn ochr â chydgysylltydd llif cleifion er mwyn nodi cleifion amhriodol; mae hyn yn cael eu dreialu ar ddwy ward yn Ysbyty Brenhinol Gwent. Er mwyn helpu staff i reoli'r broses o ryddhau pan fo'r teulu'n gyndyn o ddewis cartref gofal, neu lle bo'r dewis yn brin, mae'r camau'n cynnwys datblygu strategaeth gomisiynu ar gyfer pobl hŷn a diwygio'r polisi dewis llety. Yn ogystal â hyn, nodir yn y cynllun fod angen adolygu'r broses GIP, ar y cyd ag awdurdodau lleol partner, er mwyn canfod cyfleoedd i wneud y broses yn fwy effeithiol. Cafodd y cynllun gweithredu OwDG y buom yn ei adolygu ei ddiweddarau ym mis Tachwedd 2016, ac roedd y mentrau mewn cyfnodau amrywiol yn eu datblygiad.
- 24 Ar hyd y blynyddoedd, mae Llywodraeth Cymru wedi rhyddhau ffrydiau ariannu sy'n anelu i feithrin mwy o gydweithio rhwng gwasanaethau, a'r ddiweddaraf o'r rhain yw'r Gronfa Gofal Integredig (CGI)<sup>7</sup>. Cronfa gyfun a gyflwynwyd yn 2014-15 yw'r CGI, ac o ran llif cleifion, mae'n ariannu cynlluniau i atal derbyniadau i'r ysbyty, i gefnogi annibyniaeth pobl hŷn ac i leihau achosion o OwDG. Cafodd y gronfa ei rhyddhau fel cronfa untro yn unig i ddechrau, ond yn 2015-16, fe'i newidiwyd yn gronfa gylchol. Yn ystod mis Mehefin a mis Gorffennaf 2017, cytunodd Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol a'i grŵp arwain i adolygu prosiectau a ariennir gan CGI. Er bod yn rhaid i'r bwrdd partneriaeth rhanbarthol gytuno ar gynigion y CGI, mae'r partneriaid yn bwriadu cyflwyno ymagwedd fwy strategol at gomisiynu gwasanaethau.
- 25 Dyma enghreifftiau o fentrau a ariannwyd drwy'r CGI yn 2015-16, sy'n anelu i wella'r broses o gynllunio i ryddhau cleifion a llif cleifion:
- gwelyau camu i fyny/camu i llawr ym mhob un o'r pum awdurdod lleol;
  - gwasanaeth adsefydlu niwrolegol yn y gymuned i gefnogi trefniadau i ryddhau cleifion strôc yn gynnar;
  - cydgysylltwyr cymunedol ym mhob un o'r pum ardal awdurdod lleol, er mwyn atal arwahanrwydd cymdeithasol;
  - ariannu 15 o gydgyssylltwyr rhyddhau cleifion; ac
  - ariannu trafndiaeth ysbyty na ddarperir gan WAST. Er nad dyna yw ei brif bwrpas, mae'r gwasanaeth hefyd wedi cael ei ddefnyddio i gludo rhai cleifion na all contract rhyddhau WAST ddarparu ar eu cyfer ar y diwrnod.

<sup>7</sup>Adwaenid y Gronfa gynt fel Cronfa Gofal Canolraddol.

## Mae polisi ryddhau'r Bwrdd lechyd, sydd yn cael ei adolygu, wedi'i ddatblygu'n rhesymol ond mae lle i wella

- 26 Dylid ystyried y broses ryddhau yn rhan o broses ofal ehangach, yn hytrach na'i hystyried fel digwyddiad ynysig ar ddiwedd arhosiad y claf. Dylai sefydliadau'r GIG gael polisiâu a gweithdrefnau ar gyfer ryddhau ac/neu drosglwyddo gofal, ac yn ddelfrydol dylid datblygu'r rheiny mewn cydweithrediad â phartneriaid statudol. Yn ogystal â hyn, dylai sefydliadau'r GIG gael polisi i gynnig dewis i'r cleifion hynny y mae angen iddynt symud ymlaen i gartref gofal yn rhan o'u trefniadau gofal parhaus, er y gallai'r dewis fod yn brin mewn sawl ardal.
- 27 Adolygwyd polisi'r sefydliad ar ryddhau cleifion a throsglwyddo gofal drwy ddefnyddio matrices aeddfedrwydd<sup>8</sup>. Mae'r matrices aeddfedrwydd yn asesu 17 o elfennau'r polisi, gan ddyfarnu sgôr i bob elfen o un (llai datblygedig) hyd at dri (datblygedig iawn). Yn **Nangosyn 3** gwelir y sgoriau a ddyfarnwyd i ddrafft y Bwrdd lechyd o'i bolisi ryddhau yn erbyn y matrices aeddfedrwydd.

### Dangosyn 3: Perfformiad y Bwrdd lechyd yn erbyn rhestr wirio arfer da y polisi ryddhau cleifion

Dengys y tabl fod polisi ryddhau cleifion y Bwrdd lechyd wedi'i ddatblygu i raddau rhesymol, ond bod lle i wella.

Elfennau a aseswyd	Sgôr	Sylwadau'r archwilydd ynghylch y polisi
Polisi ryddhau aml-asiantaeth	2	Mae'r polisi'n datgan ei fod yn berthnasol i bob gweithiwr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'n cyfeirio'n benodol at awdurdodau lleol, y trydydd sector a'r sector gwirfoddol. Nodir ynddo hefyd fod angen i'r datganiad polisi gael ei ysgrifennu 'ar y cyd â' defnyddwyr gwasanaeth. Er bod y polisi'n berthnasol i bawb, nid yw'n glir a gafodd ei ddatblygu ar y cyd â phartneriaid a defnyddwyr gwasanaeth.
Polisi wedi'i adolygu o fewn y flwyddyn ddiwethaf	3	Dyddiad cyhoeddi'r polisi, 26 Mehefin 2017, a'r dyddiad adolygu 26 Mehefin 2017 wedi'u nodi'n glir ar y dudalen flaen.
Cynnwys cleifion / gofalwyr	3	Mynegir yn glir yn y polisi ei bod hi'n bwysig cynnwys y teulu/gofalwyr drwy gydol y broses ryddhau. Yn ôl y datganiadau polisi, bydd 'llwyddo i ryddhau cleifion yn seiliedig ar ymagwedd amlddisgyblaeth sy'n cynnwys y claf/rhiant a'i ofalwr/ofalwyr fel partneriaid cyfartal lle bo'n briodol'.
Cyfathrebu	3	Pwyslais cryf ar gyfathrebu â'r claf/teulu/gofalwr drwy gydol y polisi. Wedi cyfeirio at yr angen i sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn fformat hygyrch a gwahanol ieithoedd.

<sup>8</sup> Mae ein matrices aeddfedrwydd yn seiliedig ar yr Offeryn Archwilio Hunanasesu ar gyfer Cynllunio i Ryddhau'n Effeithiol, a ddatblygwyd gan yr Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd yn 2008.

Elfennau a aseswyd	Sgôr	Sylwadau'r archwilydd ynghylch y polisi
Gwybodaeth	3	Mae un o amcanion y polisi yn pwysleisio bod angen i staff ddeall pwysigrwydd cyfathrebu a rhannu gwybodaeth rhwng gwahanol sefydliadau sy'n ymwneud â'r broses ryddhau.
Grwpiau sy'n agored i niwed ee cleifion sy'n ddigartref	2	Nodir yn y polisi y dylid 'adnabod cleifion digartref cyn gynted ag sy'n bosibl wrth eu derbyn, neu cyn hynny, fel bod yr holl asiantaethau priodol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu cynnwys yn fuan'. Ar gyfer materion trawsffiniol, mae'n cyfeirio staff at Ganllawiau Comisiynwyr Cymru a Lloegr - "Who Pays". Nid yw ond yn cyfeirio at drefniadau Cymru Gyfan ar gyfer amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed yn adran y 'cynllun rhyddhau'.
Cynllunio'n fuan i ryddhau yn achos derbyniad dewisol	3	Yn ôl y polisi: 'mae'r llwybr gofal rhyddhau yn dechrau cyn derbyn y claf, boed hynny o fewn gofal sylfaenol, y gwasanaethau cymdeithasol neu'r gwasanaethau cymunedol, neu mewn clinig cyn derbyn'.
Pennir amcan o'r dyddiad rhyddhau cyn pen 24 awr ar ôl derbyn y claf.	2	Yn dweud y bydd yr ADRh wedi'i bennu cyn gynted ag sy'n bosibl ar ôl derbyn y claf, neu cyn ei dderbyn yn achos llawdriniaethau dewisol.
Osgoi Aildderbyn	2	Dim cyfeiriad penodol at fesurau i osgoi aildderbyn. Ond mae'r polisi'n cyfleu'n glir na ddylid rhyddhau cleifion yn hwyr yn y nos/yn fuan yn y bore heb gytuno ar hynny â'r teulu/gofalwr.
Cytundebau a Phrotocolau Lleol	3	Cyfeiriad a dolenni i: polisi dewis lleol, meini prawf cymhwysra'r ALI ar gyfer gofal gartref am ddim a chyfeiriad byr at brosesau ar gyfer cymhorthion/addasiadau.
Asesu	3	Cyfeiriad at yr Asesiad Integredig (a'r mesur perfformiad), a chyfeiriad a dolenni at ganllawiau Cartrefi Gofal a Ariennir gan y GIG, Fframwaith GIP y GIG a chanllawiau'r GIG gan LIC ar fodloni anghenion GIP.
Rhyddhau o'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys	1	Dim sôn am ryddhau o'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys.
Rhyddhau i gartref gofal	1	Heb ei grybwyll yn y polisi rhyddhau. Ond nodir yn y Polisi Dewis y dylai cleifion gael gymorth i fynd adref neu i fan cyfatebol, gyda phe cyn gofal. Nodir hefyd na dylid rhyddhau pobl o ysbyty aciwt i gartref gofal, fel rheol.
Cysylltiadau â'r polisi dewis llety	3	Mae'r polisi'n cyfeirio at bolisi Dewis (llety) Lleol y Bwrdd Iechyd.
Opsiynau Gofal	3	Defnyddir cyfarfodydd cynllunio i ryddhau cleifion i benderfynu sut y caiff claf ei ryddhau, ac i le y caiff ei ryddhau – bydd yr opsiynau'n cynnwys mynd adref gyda phe cyn gofal neu gyfleusterau canolraddol, preswyl, arbenigol neu nyrsio.

Elfennau a aseswyd	Sgôr	Sylwadau'r archwilydd ynghylch y polisi
Prosesau uwchgyfeirio	2	Yn cyfeirio at y defnydd o broesau uwchgyfeirio priodol er mwyn hysbysu'r uwch-nyrs. Ond ni nodir yr hyn a ddylai digwydd os na all yr uwch-nyrs ddatrys y materion dan sylw.
Protocolau Rhyddhau Hygyrch	1	Nid oedd unrhyw lwybrau na siartiau llif wedi'u cynnwys.

Ffynhonnell: Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o bolisi rhyddhau cleifion y Bwrdd Iechyd, Mehefin 2015

- 28 O'r 17 o feini prawf y buom yn profi yn eu herbyn, sgoriodd polisi'r Bwrdd Iechyd lefel 3 ar naw o'r 17 o elfennau a lefel 2 ar bump ohonynt.. Mae hyn yn golygu bod gan y Bwrdd Iechyd bolisi rhyddhau sydd wedi datblygu'n rhesymol ond bod cyfleoedd i'w wella. Gwelsom fod rhai agweddau ar bolisi rhyddhau'r Bwrdd Iechyd heb eu datblygu i'r un graddau. Nodir yn y polisi llety na ddylid rhyddhau cleifion o ysbyty aciwt i gartref gofal, ond ni chaff hyn ei bwysleisio yn y polisi rhyddhau cleifion. Nid yw'r polisi'n cynnwys siartiau llif neu broses er mwyn helpu staff i weithredu'r polisi rhyddhau cleifion, ac nid oes unrhyw wybodaeth am ryddhau cleifion o'r adran damweiniau ac achosion brys. Yn ôl arfer da, dylid pennu amcan o ddyddiad rhyddhau claf cyn pen 24 awr ar ôl ei dderbyn. Nid yw polisi'r Bwrdd Iechyd yn cynnwys graddfa amser, ond yn hytrach nodir y dylid gwneud hynny cyn gynted ag sy'n bosibl ar ôl derbyn y claf (a chyn derbyn y claf yn achos triniaethau dewisol). Mae'r polisi rhyddhau yn berthnasol i bawb sy'n ymwneud â chynllunio i ryddhau cleifion, ond nid yw'n glir a ddatblygwyd ac a gytunwyd ar y polisi ar y cyd â sefydliadau partner.
- 29 Adroddodd y Bwrdd Iechyd fod y polisi rhyddhau yn cael ei adolygu, gyda'r nod o'i ddatblygu'n ddogfen gyfeiriol ar gyfer pob agwedd ar gynllunio i ryddhau cleifion. Ceir esboniad byr o'r prosesau amrywiol ar y llwybr gofal rhyddhau, ac ar gyfer rheoli meddyginiaethau a chyfarpar, yn fersiwn gyfredol y ddogfen. Mae'r polisi hefyd yn nodi lle y caiff ei gymeradwyo (yn y fforwm clinigol) ac yn rhestru'r rhai a fydd yn gyfrifol am ei ddsbarthu. Mae'r ddogfen hefyd yn rhestru mesurau perfformiad ansoddol a meintiol er mwyn monitro cydymffurfiaeth â'r polisi.
- 30 Ym mis Awst 2015, cytunodd y Bwrdd Iechyd a phum awdurdod lleol Gwent ar y polisi dewis llety. Dyddiad adolygu'r polisi yw Ebrill 2017. Mewn diweddariad o'r cynllun gweithredu OwDG, o fis Tachwedd 2016, nodir bod hyfforddiant staff ar y polisi yn parhau, yn enwedig o ran cynnal sgysrsiau anodd â chleifion a gofalwyr. Fel y nodir uchod, mae'r polisi dewis yn datgan yn glir na ddylid rhyddhau claf o ysbyty aciwt i gartref gofal.
- 31 Dylid diffinio'n glir y rolau a'r cyfrifoldebau ar gyfer rhyddhau cleifion mewn modd diogel ac amserol mewn polisïau a gweithdrefnau. Drwy wneud hynny, gwneir defnydd effeithiol o sgiliau a gwybodaeth, a bydd aelodau unigol o staff yn cael eu dwyn i gyfrif am eu rôl yn y broses. Yn y polisi rhyddhau dylid hefyd bennu'r safonau ar gyfer yr holl staff sy'n gyfrifol am ryddhau cleifion.

- 32 Yn y Bwrdd Iechyd, gwelwch fod adran o'r polisi rhyddhau yn rhoi amlinelliad clir o gyfrifoldebau'r rhai sy'n ymwneud â chynllunio i ryddhau cleifion. Mae'r rhain yn cynnwys arweinydd strategol, staff gweithredol a thimau amlddisgyblaeth<sup>9</sup>.

## Mae llwybrau rhyddhau ar waith ond nid oedd tystiolaeth o ddogfennau i gefnogi staff i'w gweithredu

- 33 Dylid ystyried cynllunio i ryddhau o'r ysbyty yn broses barhaus a gynhelir bob dydd o'r wythnos. Er na fydd yr holl staff sy'n ymwneud â chynllunio i ryddhau'r claf ar gael bob amser, dylai'r gwaith cyfathrebu, cynllunio a chydgyssylltu barhaus. Gall llwybrau rhyddhau diffiniedig sy'n nodi'r gyfres o gamau y mae angen eu cymryd ac amseriad ymyraethau gan weithwyr proffesiynol gofal iechyd ar gyfer grwpiau diffiniedig o gleifion, yn enwedig rhai ag anghenion cymhleth, fod o gymorth i sicrhau bod cleifion yn cael eu rhyddhau'n ddiogel a phrydlon.
- 34 Yn rhan o'n gwaith, buom yn edrych ar y prif lwybrau rhyddhau sydd ar waith. Aseswyd yr eglurder ynghylch dibenion y llwybrau a'r defnydd ohonynt ar draws sefydliad, a oedd llwybrau wedi'u datblygu gyda phartneriaid o'r awdurdodau lleol, ac a oedd algorithmau, dogfennau safonedig a mesurau ansawdd i gefnogi'r llwybrau.
- 35 Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn gwybod faint o lwybrau rhyddhau generig sydd ar waith, ond nododd y prif rai fel a ganlyn:
- rhyddhau neu drosglwyddo o ysbyty aciwt i ysbyty cymunedol er mwyn i gleifion gael adsefydlu, a
  - throsglwyddo i leoliad cymunedol er mwyn cael mewnbwn nyrsys ardal ac eiddilwch.
- 36 Nid yw'r bwrdd Iechyd ychwaith yn gwybod faint o lwybrau sydd ar waith ar gyfer cyflyrau penodol, ond rhestrodd y llwybrau strôc, GIP, gofal cymhleth a'r tîm eiddilwch fel y prif rai.
- 37 Ni chawsom gofnod o lwybrau rhyddhau gan y Bwrdd Iechyd a ddangosai'r dilyniant o gamau yr oedd angen eu cymryd i ryddhau cleifion i'w cyrchfan briodol mewn modd diogel, felly ni allwn eu hadolygu. Bydd llwybrau rhyddhau fel arfer ar ffurf siart lif neu dabl, byddant yn cynnwys dibenion clir a gwybodaeth am y gyrchfan ryddhau ac, yn ddefnyddiol, byddant:
- yn cydnabod logisteg trafndiaeth neu drosglwyddo;
  - yn nodi pa ysbytai y mae'r llwybr yn berthnasol iddynt;
  - yn berthnasol bob awr o'r dydd ac ar bob dydd o'r flwyddyn;
  - wedi'u datblygu gyda sefydliadau partner (yr awdurdod lleol a chyrrff y GIG);
  - wedi'u cefnogi gan ddogfennau rhyddhau ac asesu cyffredinol;
  - yn cynnwys prosesau atgyfeirio clir;
  - yn cynnwys safonau cytunedig ar gyfer: amseroedd ymateb ar gyfer asesu anghenion, amseroedd ymateb ar gyfer darparu gwasanaeth ac ansawdd a diogelwch; ac

<sup>9</sup>Mae'r polisi rhyddhau cleifion yn amlinellu cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, cyfarwyddwyr clinigol, rheolwyr cyffredinol, nyrsys rhanbarthol, rheolwyr gwasanaeth, uwch nyrs, penaethiaid gwasanaeth, rheolwyr wardiau ac adrannau, rheolwyr achosion rhyddhau cymhleth/ymarferwyr rhyddhau/nyrsys cysylltiol/rheolwyr achos a thimau amlddisgyblaeth.



- yn cynnwys safonau ar gyfer rhannu gwybodaeth â staff clinigol/gofal yn y gymuned ee, llythyrau rhyddhau.
- 38 Y dull confensiynol o ryddhau cleifion, yn enwedig henoed bregus, yw cynnal cyfres o asesiadau ar y ward er mwyn canfod pa fath o gymorth y gallai fod arnynt ei angen gartref. Cwblheir yr asesiadau hyn fel arfer ar ôl datgan bod y claf yn 'feddygol' iach i'w ryddhau. Cyn gynted ag y bydd asesiadau wedi'u cwblhau, bydd cleifion wedyn yn cael eu rhyddhau pan fydd yr holl wasanaethau cymorth priodol neu'r holl adnoddau eraill wedi'u trefnu, a allai gymryd cryn dipyn o amser. Gelwir hyn yn llwybr neu'n fodel 'asesu i ryddhau'.
- 39 Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn annog llwybr neu fodel 'rhyddhau i asesu'<sup>10 11</sup>. Mae hynny'n golygu rhyddhau cleifion i fynd adref pan fônt yn 'feddygol' iach i'w rhyddhau, a phan nad oes angen gwely mewn ysbyty arnynt mwyach. Ar y diwrnod rhyddhau, bydd aelodau o'r tîm iechyd a gofal cymdeithasol priodol wedyn yn cynnal asesiad gartref o anghenion cymorth cleifion. Bydd hyn yn galluogi cleifion i dderbyn y lefel gywir o ofal a chymorth gartref mewn amser real, ac yn cael gwared â'r angen i gadw cleifion mewn gwely yn yr ysbyty tra bônt yn aros i asesiadau gael eu cynnal ac i wasanaethau gael eu trefnu.
- 40 Canfu'r Uned Gyflawni mai prin oedd y defnydd o lwybrau 'rhyddhau i asesu', ac argymhellodd y dylai sefydliadau'r GIG eu gweithredu. Gwelsom fod hanner (4 o 8) sefydliadau'r GIG wedi gweithredu model 'rhyddhau i asesu' er nad oedd y model ond wedi cael ei weithredu ar safleoedd ysbyty penodol mewn rhai sefydliadau. Adroddodd y Bwrdd Iechyd nad yw wedi gweithredu model rhyddhau i asesu, ond mae'n archwilio ffyrdd i dreialu'r model gydag awdurdodau lleol partner. Nodwyd bod prinder staff yn y gymuned i adnabod cleifion, cynnal asesiad priodol ohonynt a rheoli eu cyflwr gartref yn eu hatal rhag rhoi'r model ar waith.

<sup>10</sup> Llywodraeth Cymru, Gosod y Cyfeiriad: Gwasanaethau Cychwynnol a Chymuned - Rhaglen Strategol ar Gyfer Cyflenwi, 2010

<sup>11</sup> Llywodraeth Cymru, Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy, 2011

Mae timau a arweinir gan nyrsys ar gael i gefnogi'r broses ryddhau, ond dim ond o ddydd Llun i ddydd Gwener; mae angen gwella hyfforddiant staff, ymwybyddiaeth o'r polisi rhyddhau ac amseroedd aros lolfeydd rhyddhau

Mae'r adnoddau rhyddhau penodol wedi'u harwain gan nyrsys, ond nid ydynt ond ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener, ac fe geir pryderon ynghylch amseroedd aros hir mewn lolfeydd rhyddhau


Nid yw'r gwasanaeth cyswllt rhyddhau a arweinir gan nyrsys yn wasanaeth amlddisgyblaethol, ond mae'n cynnwys cefnogaeth weinyddol i wella effeithlonrwydd ac, yn debyg i wasanaethau mewn byrddau iechyd eraill, nid yw ond yn gweithredu o ddydd Llun i ddydd Gwener.

- 41 Tîm cyswllt rhyddhau yw tîm arbenigol sy'n anelu i gefnogi proses trosglwyddo gofal ddiogel a didor ar gyfer cleifion sydd yn symud o'r ysbyty i ddarpariaeth gwasanaeth yn y gymuned. Gall y timau hyn fod yn ffynhonnell werthfawr o gefnogaeth a gwybodaeth i staff ward, a chynnig cymorth i hwyluso achosion rhyddhau cymhleth.
- 42 Gofynnwyd am wybodaeth gan bob sefydliad o fewn y GIG ynghylch a ydynt yn gweithredu gwasanaethau cyswllt ar gyfer rhyddhau, ac ynghylch cwmpas y gwasanaethau hynny. Ledled Cymru, gwelsom fod holl sefydliadau'r GIG, ac eithrio Ymddiriedolaeth GIG Felindre, yn cynnal un neu fwy o dimau cyswllt ar gyfer rhyddhau. Mae'r holl dimau'n gweithredu o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod oriau swyddfa, a'r amser gorffen hwyraf yw 5.30pm. Dywedodd saith o'r 15 o dimau eu bod yn rheoli achosion rhyddhau syml a chymhleth.
- 43 Gwelsom fod gan y Bwrdd Iechyd dîm o Nyrsys Cyswllt Rhyddhau (NCRh), sydd yn trafod yr holl safleoedd ysbyty ac yn gweithio ar draws yr holl feysydd arbenigol. Mae'r Arweinydd Strategol ar gyfer Llif Cleifion yn goruchwyllo'r gwasanaeth, ac mae'r Nyrs Ranbarthol ar gyfer Gwasanaethau Cymunedol yn gyfrifol am reolaeth weithredol. Mae'r Nyrsys Ardal Rhyddhau Cleifion yn rheoli'r holl achosion rhyddhau cymhleth.
- 44 Fel arfer, bydd timau cyswllt rhyddhau yn cynnwys staff nyrsio ond, er mwyn cael rheolaeth well ar achosion rhyddhau cymhleth, dylai'r timau fod yn amlddisgyblaethol. Yn **Nangosyn 4** gwelir y gwahanol broffesiynau o fewn timau cyswllt rhyddhau ledled Cymru. Dengys y data fod llai na hanner y timau yn amlddisgyblaethol a'r rhan fwyaf ohonynt wedi'u harwain gan nyrsys. Mae timau cyswllt rhyddhau yn amrywio o ran maint rhwng dau aelod staff cyfwerth ag amser llawn (CALI) a 29 aelod o staff CALI, gyda'r timau mwy yn gweithio ar draws amryw o safleoedd ysbyty. Roedd y timau'n cynnwys saith aelod CALI o staff ar gyfartaledd.

#### Dangosyn 4: gwahanol aelodau staff proffesiynol a ddyrennir i Dimau Cyswllt Rhyddhau ar 30 Medi 2016

Mae'r siart yn dangos bod timau cyswllt rhyddhau ledled Cymru wedi'u harwain yn bennaf gan nyrsys, ac mai ychydig iawn o dimau amlddisgyblaethol a geir.

##### Staff proffesiynol yn y tîm



Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o wybodaeth a gasglwyd am Dimau Cyswllt Rhyddhau, 2017.<sup>12</sup>

- 45 O fewn y Bwrdd Iechyd, mae'r tîm o Nyrsys Cyswllt Rhyddhau Cleifion yn cynnwys tair nyrs band saith a phedair nyrs band chwech, ac mae pum Cydgysylltydd Llif Cleifion yn cefnogi'r tîm. Mae'r Cydgysylltwyr Llif Cleifion yn cyflawni gwaith gweinyddol a chynllunio i ryddhau cleifion. Mae hynny'n rhyddhau amser i Nyrsys Cyswllt Rhyddhau Cleifion fod yn bresennol mewn cyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol a rhawdiau bwrdd, sydd yn helpu i gefnogi rhyddhau'n brydlon. Cyflwynwyd y Cydgysylltwyr Llif Cleifion ym mis Hydref 2016, yn dilyn adolygiad o'r gwasanaeth Nyrsys Cyswllt Rhyddhau Cleifion ym mis Mawrth 2016. Er nad yw hyn ond wedi bod ar waith ers amser byr, adroddodd y Bwrdd Iechyd ei fod wedi sylwi ar ostyngiad yn hyd yr arhosiad, a llai o oedi y gellir ei osgoi cyn atgyfeirio ac asesiadau. Fel yr amlinellir yn y Cynllun Gofal Brys, ym mis Ionawr 2017, cyflwynodd y Bwrdd Iechyd Gydgysylltwyr Rhyddhau, sef aelodau anghlinigol o staff ward. Mewn ysbytai cymunedol, mae Cydgysylltwyr Rhyddhau yn adnodd ychwanegol er mwyn helpu i reoli trefniadau ar gyfer achosion cymhleth; mewn ysbytai aciwt maent yn canolbwyntio ar bob claf.

<sup>12</sup> Mae'r saith bwrdd iechyd yng Nghymru yn gweithredu timau cyswllt rhyddhau. Mae tri bwrdd iechyd – Byrddau Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, Hywel Dda a Betsi Cadwaladr – yn gweithredu timau ar wahân ar gyfer pob safle ysbyty. Cawsom 15 o ffurflenni data oddi wrth dimau cyswllt rhyddhau, er nad oedd yr holl ffurflenni data yn gyflawn.

Fodd bynnag, nid yw Cydgysylltwyr Rhyddhau yn rhan o'r gwasanaeth Nyrsys Cyswllt Rhyddhau Cleifion. Roedd y staff ward y buom yn siarad â hwy yn teimlo bod cydgysylltwyr llif cleifion a rhyddhau yn darparu gwasanaeth gwerthfawr, ond nid oeddent yn siŵr o'r gwahaniaeth rhwng y ddwy rôl.

- 46 Cyfanswm cost 13 o'r 15 o dimau cyswllt rhyddhau oedd £2.9 miliwn, ac roedd costau'r timau'n amrywio rhwng £43,000 a £692,000. O fewn y Bwrdd Iechyd, £290,425 oedd cost y tîm cyswllt rhyddhau rhwng mis Hydref 2015 a mis Medi 2016, o gymharu â'r gost gyfartalog o £244,000 fesul tîm cyswllt rhyddhau.
- 47 Oherwydd bylchau yn yr wybodaeth am gostau staffio, gweithgarwch a gwasanaethau, mae'n anodd sefydlu gwerth cymharol am arian y timau cyswllt rhyddhau oddi mewn i sefydliadau'r GIG/ying ngwahanol sefydliadau'r GIG. Dim ond pedwar o'r pymtheg tîm cyswllt rhyddhau ar draws Cymru a ddarparodd yr wybodaeth y gwnaethom ofyn amdani. Ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd gan y pedwar tîm hwn, buom yn cymharu nifer y cleifion sy'n cael eu rhyddhau â nifer yr aelodau staff CALI. Roedd nifer yr achosion o ryddhau fesul aelod staff CALI yn amrywio rhwng 50 a 250; ar gyfartaledd, roedd 117 o gleifion yn cael eu rhyddhau fesul aelod staff CALI. Ni chawsom wybodaeth am nifer yr achosion o ryddhau yr oedd tîm cyswllt rhyddhau y Bwrdd Iechyd yn eu rheoli, felly ni allwn wneud unrhyw sylwadau ynghylch capasiti'r tîm.
- 48 Gofynnwyd i dimau cyswllt rhyddhau ddisgrifio pa mor aml yr oeddent yn cyflawni amrywiaeth o weithgareddau i gefnogi cynlluniau rhyddhau. Yn **Atodiad 4** gwelir crynodeb o'r mathau o weithgareddau a gyflawnir gan dimau cyswllt rhyddhau ledled Cymru. O fewn y Bwrdd Iechyd, mae'r gwasanaeth Nyrsys Cyswllt Rhyddhau Cleifion bob amser yn cyflawni'r gweithgareddau canlynol, sydd yn cyd-fynd yn fras â thimau cyswllt rhyddhau eraill:
- sicrhau bod cynlluniau rhyddhau unigol ar waith i gleifion ag anghenion cymhleth;
  - cysylltu â chyrrff cyhoeddus eraill i rwyddhau'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty ac osgoi aildderbyniadau;
  - cynnig un man cyswllt i ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn ystod y broses o gynllunio i ryddhau;
  - dilysu achosion o oedi cyn trosglwyddo gofal;
  - darparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu i staff clinigol er mwyn rhyddhau cleifion yn brydlon;
  - rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i reolwyr gwely ynghylch rhyddhau cleifion o'r ysbyty; a
  - chyfeirio cleifion a'u teuluoedd i dderbyn cyngor a chefnogaeth er mwyn parhau i fyw'n annibynnol gartref.
- 49 Fodd bynnag, anaml y bydd gwasanaeth y Nyrsys Cyswllt Rhyddhau yn cydweithio â rheolwyr gweithredol i ddatblygu mesurau perfformiad ar gyfer rhyddhau cleifion o'r ysbyty. Mae hyn yn wahanol i'r 47% o dimau cyswllt rhyddhau eraill sydd yn gwneud hynny'n aml neu bob amser. Mae'r 54% o wasanaethau cyswllt rhyddhau bob amser, neu'n aml, yn rhoi cyngor a chefnogaeth ar opsiynau tai; anaml y bydd gwasanaeth y Nyrsys Cyswllt Rhyddhau yn gwneud hyn.
- 50 Bydd mwyafrif y gwasanaethau cyswllt rhyddhau bob amser neu'n aml yn cynorthwyo staff i adnabod cleifion sy'n agored i niwed a allai wynebu oedi (87%) ac yn cymryd rhan mewn rhawdiau ward ac/neu gyfarfodydd tîm amlddisgyblaeth. Bydd gwasanaeth y Nyrsys Cyswllt rhyddhau weithiau'n cyflawni'r gweithgareddau hyn; yn sgil cyflwyno'r Cydgysylltwyr Llif Cleifion bydd gan

nyrsys cyswllt rhyddhau cleifion fwy o amser i fod yn bresennol ar rawdiau bwyd ac mewn cyfarfodydd tîm amlddisgyblaeth.


**Mae gan y lolfeydd rhyddhau oriau agor hir, ond nid ydynt ond ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener; codwyd pryderon ynghylch amseroedd aros hir a phroblemau'n gysylltiedig â chludo cleifion**

- 51 Gall lolfa ryddhau hefyd gefnogi cynlluniau rhyddhau cleifion a llif cleifion effeithiol drwy gynnig amgylchedd addas lle gall cleifion ddisgwyl i berthnasau, neu drafnidiaeth yr ysbyty, eu codi. Bydd hynny'n golygu bod gwelyau'n cael eu rhyddhau'n brydlon i dderbyn cleifion eraill. Bydd rhai cleifion hefyd yn cael eu hanfon i'r lolfa wrth ddisgwyl i'r fferyllfa ddosbarthu eu meddyginiaeth.
- 52 Holwyd sefydliadau'r GIG ynghylch eu cyfleusterau o ran lolfeydd rhyddhau. Ar draws Cymru, gwelsom fod pob bwrdd iechyd, ar wahân i Bowys, yn gweithredu lolfeydd rhyddhau yn eu hysbytai aciwt. Ar adeg ein gwaith archwilio, roedd gan y lolfeydd rhyddhau y capasiti i gefnogi 192 o gleifion oedd yn disgwyl cael eu rhyddhau; capasiti cyfartalog pob lolfa ryddhau oedd 11. Ar draws Cymru, mae lolfeydd rhyddhau ar agor am 8 i 12 awr o ddydd Llun i ddydd Gwener yn unig, ac mae nyrsys cofrestredig a gweithwyr cymorth gofal iechyd yn gweithio ynddynt fel arfer. Ceir hefyd gyfleusterau bwyd a thoiledau i'r cleifion.
- 53 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnal lolfeydd rhyddhau yn Ysbyty Brenhinol Gwent (YBG) ac Ysbyty Neuadd Nevill (YNN) o ddydd Llun i ddydd Gwener. Mae gan YBG gapasiti ar gyfer 16 o gleifion, ac mae'n gweithredu'r gwasanaeth rhwng 8am ac 8pm. Mae gan YNN gapasiti ar gyfer 10 o gleifion, ac mae'n gweithredu rhwng 9.30am a 5.30pm. Rhwng mis Hydref 2015 a mis Medi 2016, cafodd 2,087 o gleifion eu rheoli drwy'r lolfa ryddhau yn YNN. Ni wyddys beth yw'r ffigur ar gyfer YBG.
- 54 Gofynnwyd hefyd am wybodaeth ynghylch trefniadau staffio, costau a gweithgarwch y lolfeydd rhyddhau. Roedd yr wybodaeth hon yn fwy cyflawn na'r wybodaeth ar gyfer y timau cyswllt rhyddhau. Mae nifer y staff a ddefnyddir ar draws lolfeydd rhyddhau ysbytai yn amrywio rhwng llai nag un aelod staff CALI a phum aelod staff CALI; y cyfartaledd oedd tri aelod staff CALI. Cyfanswm cost 12 o'r 14 o lolfeydd rhyddhau oedd £1 miliwn, ac roedd costau gwasanaethau unigol yn amrywio rhwng £25,000 a £139,000. £86,000 oedd y gost gyfartalog fesul lolfa ryddhau. Yn Aneurin Bevan, mae gwasanaeth y lolfa ryddhau yn costio £167,206. Y gost fesul achos o ryddhau yn Ysbyty Neuadd Nevill oedd £32 o gymharu â chyfartaledd y lolfa ryddhau o £28 (**Dangosyn 5**).

### Dangosyn 5: cymhariaeth o'r gost am bob claf a ryddhawyd ac a reolwyd gan lolfeydd rhyddhau unigol rhwng 1 Hydref 2015 a 30 Medi 2016

Dengys y siart fod y gost am bob claf a ryddhawyd, ac a reolwyd drwy'r lolfa ryddhau, yn amrywio rhwng £12 a £74 fesul achos o ryddhau.

Lolfa rhyddhau o'r ysbyty



Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o wybodaeth a gasglwyd am lolfeydd rhyddhau ysbyty, 2017<sup>13</sup>


55 Unwaith eto, buom yn cymharu nifer y cleifion a gafodd eu rhyddhau, ac a gefnogwyd drwy'r lolfeydd rhyddhau, â nifer yr aelodau staff CALI. Ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd gan wyth o'r 14 o lolfeydd rhyddhau, roedd nifer y cleifion a ryddhawyd fesul aelod staff CALI yn amrywio rhwng 1 Hydref 2015 a 30 Medi 2016, o ychydig llai na 400 fesul aelod staff CALI hyd at ychydig dros 2000 fesul aelod staff CALI (Dangosyn 6). Yn Ysbyty Neuadd Nevill, mae un nyrs gofrestrdig ac un cynorthwydd gofal iechyd yn gweithio yn y lolfa ryddhau. Rhwng 1 Hydref 2015 a 30 Medi 2016, rheolwyd y broses o ryddhau 2,087 o gleifion drwy'r lolfeydd, gan olygu bod pob aelod staff CALI yn rheoli 1,044 o achosion rhyddhau.

<sup>13</sup> Cawsom wybodaeth oddi wrth 14 o lolfeydd rhyddhau, ond dim ond 8 ffurflen a ddychwelwyd oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol i gymharu'r gost fesul claf a ryddhawyd o'r lolfa ryddhau.

**Dangosyn 6: nifer y cleifion a ryddhawyd fesul aelod staff cyfwerth ag amser llawn (CALI), ac a gefnogwyd drwy lolfeydd rhyddhau ysbytai rhwng 1 Hydref 2015 a 30 Medi 2016**

Mae'r siart yn dangos bod nifer y cleifion a ryddhawyd fesul aelod staff cyfwerth ag amser llawn yn amrywio ar draws lolfeydd rhyddhau ysbytai, o ychydig llai na 400 fesul aelod staff CALI hyd at ychydig dros 2000 fesul aelod staff CALI.

Lolfa rhyddhau o'r ysbyty



Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o wybodaeth a gasglwyd am lolfeydd rhyddhau ysbyty, 2017 (**Gweler Troednodyn 12**)

56 Mynegodd y nyrsys ward y buom yn siarad â hwy bryderon ynghylch y cyfnodau hir y byddai'n rhaid i gleifion aros yn y lolfeydd rhyddhau - gall cleifion orfod aros gyhyd â saith awr - a'r ffaith nad ydynt yn gallu dweud wrth gleifion pa mor hir y bydd yn rhaid iddynt aros. Roedd a wnelo'r rhesymau a roddwyd am yr arosiadau hir â chapasiti'r drafnidiaeth i gleifion nad ydynt yn achosion brys, a'r angen i nyrsys archebu'r math cywir o drafnidiaeth i gleifion. Dywedodd staff ward wrthym fod modd dychwelyd cleifion i'r lolfa ryddhau os na all y gwasanaeth ambiwlans eu cludo, a bod cleifion yn gallu bod mewn ciw am oriau wrth archebu trafndiaeth i achosion nad ydynt yn rhai brys. Nodir yn y Cynllun Gofal Brys mai un o ganlyniadau gweithredu'r ward enghreifftiol yw lleihau nifer y cleifion sy'n cael eu dychwelyd. Ac fel y nodir ym mharagraff 25, defnyddiwyd trafndiaeth cleifion y talwyd amdani drwy gyllid o'r Gronfa Gofal Integredig i gyflenwi contract rhyddhau cleifion WAST, hy ar gyfer cleifion nad oedd modd darparu ar eu cyfer ar y diwrnod dan sylw. Teimlai'r staff y byddai'n fuddiol sefydlu lolfa ryddhau.

## Nid oes hyfforddiant ar gynllunio i ryddhau cleifion ac mae'r ymwybyddiaeth o'r polisi rhyddhau yn wael. Fodd bynnag, mae'r staff yn gwybod o le i gael gwybodaeth am wasanaethau cymunedol

57 At ei gilydd, tîm y ward sy'n gyfrifol am asesu cleifion a chynllunio i'w rhyddhau. Dylai staff y ward gymryd rhan yn y broses cynllunio i ryddhau a'i hystyried yn rhan o'r continwwm gofal, a dylid dwyn staff ward a rheolwyr gweithredol i gyfrif am gynllunio i ryddhau cleifion yn effeithiol. I ategu hyn dylid sicrhau ymwybyddiaeth glir o bolisiau a llwybrau, mynediad at lefelau hyfforddi priodol, ac ymwybyddiaeth dda o'r ystod o wasanaethau sydd ar gael i gefnogi prosesau rhyddhau.

## Nid yw'r staff wedi derbyn hyfforddiant ar gynllunio i ryddhau cleifion, ac mae'r ymwybyddiaeth o'r polisi rhyddhau cleifion yn wael, ond mae'r staff yn ymwybodol o'r polisiau sy'n cefnogi hynny.

- 58 Yn rhan o'n gwaith archwilio, cyfarfuom â grŵp o nyrsys ward i drafod ystod o faterion yn gysylltiedig â chynllunio i ryddhau cleifion. Roedd y staff y cyfarfuom â hwy yn deall yn glir beth oedd eu rôl o ran cynllunio i ryddhau cleifion. Pan ofynnwyd iddynt a oeddent yn ymwybodol o bolisi rhyddhau cyffredinol, esboniodd y nyrsys fod gwahanol bolisiau ar waith ar gyfer gwahanol rannau o'r system. Er enghraifft, dewis llety, atgyfeiriad therapi galwedigaethol a iechyd meddwl. Er bod hyn yn gadarnhaol, dylai'r nyrsys fod yn ymwybodol o'r polisi rhyddhau cyffredinol. O ran llwybrau rhyddhau, ni chrybwyllodd y staff ward lwybr rhyddhau cyffredinol, ond cyfeiriwyd at y ffaith bod gan wahanol ysbytai ac ardaloedd awdurdod lleol lwybrau a gweithdrefnau gwahanol i'w gilydd.
- 59 Ymddengys fod y gweithdrefnau a'r systemau a ddisgrifir gan y nyrsys ward yn amrywio yn ôl ward ac arbenigedd. Rheswm posib am hyn yw bod rhai wardiau wedi gweithredu neu'n treialu mentrau a nodwyd yn y Cynllun Gofal brys. Wrth roi'r 'ward enghreifftiol' ar waith fesul cam, esboniodd uwch reolwyr ei bod hi'n bwysig i wardiau gymryd perchnogaeth ar ryddhau cleifion. Yn amodol ar gadw egwyddorion y 'ward enghreifftiol', mae wardiau wedi cael rhyddid i weithredu'r rhaglen yn eu ffordd eu hunain.
- 60 Dylai staff rheng flaen dderbyn hyfforddiant rheolaidd sy'n briodol i'w rôl yn y broses ryddhau. Dylai'r hyfforddiant hwn fod yn rhan o raglenni ymsefydlu, ac o ddiweddariadau rheolaidd ar bynciau penodol, yn enwedig pan fydd polisiau cysylltiedig yn ddibynnol ar asesu a chynllunio gofal. Yn ddefnyddiol, darperir hyfforddiant ar sail aml-asiantaeth ac/neu ar sail aml-broffesiwn er mwyn sicrhau bod cynllunio i ryddhau cleifion yn fusnes i bawb.
- 61 Yn **Nangosyn 7** gwelir mai ond hanner sefydliadau'r GIG ledled Cymru sy'n cynnwys cynlluniau rhyddhau mewn rhaglenni ymsefydlu nyrsys, ac sydd yn cynnig hyfforddiant gloywi rheolaidd. Dywedodd staff nyrsio yn y Bwrdd Iechyd nad oeddent wedi derbyn unrhyw hyfforddiant ar gynllunio i ryddhau cleifion. Gwelsom nad oedd rhaglenni ymsefydlu ar gyfer staff nyrsio, meddygol, therapi galwedigaethol a ffisiotherapi yn cynnwys hyfforddiant ar gynllunio i ryddhau cleifion.



## Dangosyn 7: yr hyfforddiant ar gynllunio i ryddhau cleifion sydd ar gael i staff nyrsio

Dengys y tabl pa sefydliadau yn y GIG sydd yn darparu hyfforddiant ar gynllunio i ryddhau cleifion yn rhan o raglenni ymsefydlu nyrsys, ac a ddarperir hyfforddiant gloywi rheolaidd i'r staff nyrsio.

Sefydliad y GIG	Hyfforddiant ar gynllunio i gynnwys cleifion mewn rhaglenni ymsefydlu nyrsys ar gyfer dechreuwy'r newydd	Hyfforddiant gloywi ar gynllunio i ryddhau cleifion wedi'i ddarparu'n rheolaidd i nyrsys <sup>1</sup>
Abertawe Bro Morgannwg	Nac oes	Oes
<b>Aneurin Bevan</b>	<b>Nac oes</b>	<b>Nac oes</b>
Betsi Cadwaladr		
• Ysbyty Gwynedd	Oes	Oes
• Wrecsam Maelor	Oes	Oes
• Glan Clwyd	Oes	Nac oes
Caerdydd a'r Fro	Nac oes	Oes
Cwm Taf	Nac oes	Oes
Hywel Dda (timau sirol)		
• Sir Benfro	Oes	Nac oes
• Ceredigion	Nac oes	Nac oes
• Sir Gaerfyrddin	Nac oes	Nac oes
Powys	Nac oes	Nac oes
Felindre	Oes	Oes
<sup>1</sup> Hyfforddiant gloywi wedi'i ddarparu o leiaf bob blwyddyn, neu ddwywaith y flwyddyn i'r staff nyrsio		

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o wybodaeth am gynllunio i ryddhau cleifion a ddychwelwyd gan gyrff y GIG yn 2017 ([Gweler Troednodyn 6](#))

62 Dywedodd y Nyrs Ranbarthol ar gyfer Cymunedau, sy'n gyfrifol am y Gwasanaeth Nyrsys Cyswllt Rhyddhau Cleifion, ei bod yn cynnal sesiynau ymgysylltu a hyfforddi misol â'i thîm, ac esboniodd y Cyfarwyddwr Gweithrediadau Cysylltiol fod timau ward yn mynychu sesiynau dysgu a rhannu ag ABCi<sup>14</sup>. Er bod hyn yn gadarnhaol, mae'n glir nad oes gan y Bwrdd Iechyd ymagwedd ffurfiol at gynllunio i ryddhau cleifion. Dylai'r holl staff sy'n ymwneud â chynllunio i ryddhau cleifion dderbyn hyfforddiant ar hynny yn rhan o'u cwrs ymsefydlu, a derbyn hyfforddiant gloywi rheolaidd wedi hynny. Er cysondeb, dylai hyfforddiant fod ar gael i sefydliadau partner sy'n ymwneud â chynllunio i ryddhau cleifion.

<sup>14</sup>Mae ABCi yn cynrychioli Gwelliant Parhaus Aneurin Bevan. Canolfan arloesi a gwella y Bwrdd Iechyd ydyw, a sefydlwyd yn 2013.

Mae'r Bwrdd Iechyd ar ganol cyflwyno newidiadau er mwyn gwella'r broses o gynllunio i ryddhau cleifion, ond mae'n rhy fuan i wneud sylwadau ynghylch effaith y newidiadau hynny, ac mae llawer o waith i'w wneud cyn y bydd modd ymdrin yn llawn â'r ffactorau sy'n atal cleifion rhag cael eu rhyddhau'n brydlon.

- 63 Yn ei adolygiad, gwelodd yr Uned Gyflawni ddiwylliant ledled Cymru lle'r oedd pobl yn gyndyn o gymryd risg, lle'r oedd y staff yn siarad yn agored am ddiwylliant 'cwtsh'<sup>15</sup> a'r ffaith nad oedd digon o amser yn cael ei neilltuo i reoli'r broses ryddhau. Cyfeiriodd y staff at nifer o ffactorau a oedd yn eu hatal rhag rhyddhau cleifion yn brydlon. Y rhesymau pennaf am hyn oedd gorfod aros yn hir am weithiwr cymdeithasol, y broses hir yn gysylltiedig â gofal iechyd parhaus (GIP), aros am becynnau gofal a phrinder cyfleusterau bariatrig.
- 64 Fodd bynnag, dywedodd staff wrthym hefyd am feysydd lle cafwyd arfer da, er enghraifft bod gweithiwr cymdeithasol o Gasnewydd yn ymweld â'r wardiau ddwywaith yr wythnos ac wedyn yn cysylltu â chynghorau eraill fel bo'r angen. Mae hyn yn rhan o beilot ar un ward, ac mae'r nyrswys ward yn disgwyl y bydd y peilot yn cael ei roi ar waith yn raddol ar draws y Bwrdd Iechyd.
- 65 O ran rheoli GIP, mae Bwrdd GIP newydd gael ei ffurfio. Mae'r Bwrdd yn cyfarfod bob tri mis, gyda thri o'r pum awdurdod lleol yn bresennol. Nod y Bwrdd yw rheoli gwelliannau cyffredinol ar y cyd, a cheisio atal anghydfod ynghylch cyllid wrth drefnu gofal i gleifion ar ôl eu rhyddhau. Yn ogystal â hyn, mae'r Bwrdd Iechyd yn cynllunio i gynyddu nifer y rheolwyr GIP fel bod un rheolwr ar gyfer pob ardal awdurdod lleol. Bydd rheolwyr GIP yn gwirio ansawdd cymwysiadau GIP ac yn comisiynu pecynnau gofal.
- 66 Canfu'r Uned Gyflawni nad oedd rhyw lawer o dystiolaeth yng nghofnodion cleifion bod staff wedi trafod disgwyliadau rhyddhau gyda'r cleifion. Mae'r Bwrdd Iechyd yn treialu taflen wedi'i phersonoli o dan y teitl 'eich tocyn allan o'r ysbyty'. Ceir lle ar y daflen i nodi enw'r claf, y dyddiad rhyddhau disgwyliedig, rhif y ward ac enw'r meddyg ymgynghorol; y mae hefyd yn cynnwys rhestr o rifau ffôn defnyddiol i'r claf, ei berthnasau a'i ofalwyr. Mae'r daflen yn cynnwys gwybodaeth fydd o gymorth i baratoi'r claf i gael ei ryddhau, er enghraifft, mae'n egluro y gallai cleifion gael eu trosglwyddo i ofal canolraddol neu leoliad yn y gymuned, yr hyn i'w ystyried cyn rhyddhau neu drosglwyddo'r claf, a'r hyn i'w ystyried cyn mynd adref. Mae'r daflen hefyd yn esbonio bod y Bwrdd Iechyd yn disgwyl i gleifion drefnu eu trafndiaeth eu hunain adref ar ôl iddynt gael eu rhyddhau, ond bod modd trefnu trafndiaeth mewn amgylchiadau eithriadol.
- 67 Dywedodd staff wrthym fod y daflen yn cael ei threialu mewn dwy ward, ac ar adeg ein adolygiad, a'u bod wedi dechrau defnyddio'r daflen ers deufis.. Dyma gam cadarnhaol, gan fod adolygiad yr Uned Gyflawni, y cynrychiolydd o'r Cyngor Iechyd Cymunedol a'r staff ward yn cyfeirio at broblemau'n gysylltiedig â chyfathrebu.
- 68 Yn dilyn adolygiad yr Uned Gyflawni, adroddodd y Bwrdd Iechyd fod canfyddiadau wedi cael eu cyflwyno i nifer o dimau er mwyn canfod pa gamau y mae angen eu cymryd i wella'r broses o gynllunio i ryddhau cleifion. Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymateb i argymhellion yr Uned Gyflawni drwy:
- weithredu cam cyntaf y Cynllun Gofal Brys, sy'n canolbwyntio ar wella targedau'r adran achosion brys a phrofiadau cleifion - ceir manylion pellach ym mharagraff 16;

<sup>15</sup> Disgrifiodd yr Uned Gyflawni ddiwylliant cwtsh lle'r oedd rhai aelodau o staff yn amharod i ryddhau cleifion i'w cartrefi eu hunain, oherwydd eu bod yn tybio y gallai hynny achosi risg i'r cleifion. Er mai caredigrwydd sydd wrth wraidd hyn, mae'n bosib nad yw'r staff yn gweithredu er budd pennaf y cleifion.

- cyflawni mwy o waith cwmpasu ym maes gofal cymhleth er mwyn canfod model sy'n ei gwneud hi'n haws i asesu cleifion ag anghenion cymhleth ynghynt, gan fod rhyddhau cleifion ag anghenion gofal cymhleth wedi'i amlygu fel maes i'w wella;
- cyflwyno cysyniad y 'cydgysylltwyr llif cleifion' a'r 'ward enghreifftiol' fel ffordd o ymdrin â phroblemau cyfathrebu;
- datblygu rhaglen waith i gefnogi'r argymhellion a gafwyd yn dilyn yr archwiliad diwrnod o ofal; a
- chynnal ymgyrch o'r enw 'Torri'r Cylch' rhwng 29 Mawrth ac 13 Ebrill 2017. Yn ôl egwyddorion 'Torri'r Cylch', ni ddylai cleifion wynebu unrhyw oedi, a dylid sicrhau bod y 'gwely cywir yn cael ei ddarparu i'r claf cywir, y tro cyntaf'.

Caiff gwybodaeth am wasanaethau cymunedol ei chasglu'n rheolaidd i gefnogi'r broses o ryddhau cleifion ac, er nad oes gan y Bwrdd Iechyd gyfeiriadur gwasanaethau cymunedol, mae staff yn gwybod o le i gael gwybodaeth pan fo angen.

69 Mae cael dealltwriaeth dda o ystod a chapasiti gwasanaethau iechyd cymunedol a gofal cymdeithasol yn elfen bwysig wrth sicrhau bod cleifion yn cael eu rhyddhau'n brydlon. Dylai cyrff iechyd ddal gwybodaeth gyfredol am y gwasanaethau cymunedol sydd ar gael a all helpu cleifion ar ôl iddynt gael eu rhyddhau. Gall y gwasanaethau hyn fod ar gael drwy sefydliadau'r GIG, awdurdodau lleol a sefydliadau'r trydydd sector. Gofynnwyd i gyrff iechyd pa fathau o wybodaeth yr oeddent yn ei chasglu am wasanaethau cymunedol. Yn **Nangosyn 8** gwelir mai ychydig o sefydliadau sy'n casglu gwybodaeth am wasanaethau cymunedol a ddarperir gan sefydliadau eraill y GIG ac opsiynau tai. Mae'r nifer sy'n casglu gwybodaeth am amseroedd aros ar gyfer asesu anghenion ac amseroedd aros cyn i wasanaethau gychwyn hefyd yn gymharol brin,

**Dangosyn 8: nifer y cyrff iechyd a adroddodd eu bod yn casglu ystod o wybodaeth am wasanaethau cymunedol**

Mae'r tabl yn dangos faint o gyrff iechyd sy'n casglu ystod o wybodaeth am wasanaethau cymunedol.

	Ystod y gwasanaethau	Argaeledd y gwasanaethau	Meini Prawf Cymhwys -tra	Y broses atgyfeirio	Amser aros ar gyfer asesiad anghenion	Amser aros i wasanaethau gychwyn
Gwasanaethau cymunedol y Bwrdd Iechyd ei hun	8	8	9	9	4	4
Gwasanaethau cymunedol a ddarperir gan gyrff eraill y GIG	3	3	3	3	2	2
Gwasanaethau gofal cymdeithasol	9	9	9	10	6	3
Y Trydydd Sector	10	8	10	8	3	2
Opsiynau Tai	4	2	4	6	2	2
Y Sector Annibynnol ee, gwelyau mewn cartrefi gofal	7	6	9	9	2	2

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o wybodaeth am gynllunio i ryddhau cleifion a ddychwelwyd gan gyrff y GIG yn 2017 (**Gweler Troednodyn 6**)

- 70 O fewn y Bwrdd Iechyd, mae'r adrannau gwybodeg iechyd a gofal cymdeithasol, ar y cyd ag arweinwyr llif cleifion allweddol, yn gyfrifol am gasglu gwybodaeth am argaeledd gwasanaethau cymunedol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn casglu gwybodaeth am yr holl wasanaethau a welir yn **nangosyn 9**, ar wahân i wasanaethau cymunedol a ddarperir gan wasanaethau eraill y GIG. Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn casglu gwybodaeth am amseroedd aros (er mwyn asesu anghenion nac i gychwyn gwasanaethau). Caiff y rhan fwyaf o wybodaeth ei diweddarau'n ddyddiol, ar wahân i wybodaeth am wasanaethau'r sector annibynnol, a gaiff ei diweddarau bob wythnos. Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn gwybod pa mor aml y caiff data ar opsiynau tai eu diweddarau.
- 71 Gofynnwyd i nyrsys ward faint yr oeddent yn ei wybod am yr ystod o wasanaethau cymunedol i gefnogi cleifion wrth eu rhyddhau. Nid oedd y nyrsys ward y buom yn siarad â hwy yn ymwybodol o gyfeiriadur o wasanaethau cymunedol. Soniwyd am ambell ffordd o gael yr wybodaeth yr oedd ei hangen, er enghraifft, mae gan bob bwrdeistref sirol nyrs gyswllt a chanddo/chanddi wybodaeth gyfredol am leoedd gwag mewn cartrefi gofal. Gallant gysylltu â Rhaglen Eiddilwch Gwent neu Age Concern am wybodaeth a chysylltu â'r awdurdodau lleol - cyfeiriwyd at Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen fel awdurdod a oedd yn dda am ddarparu gwybodaeth am wasanaethau cymunedol.

## Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau craffu cryf, ond mae'r perfformiad yn amrywio ac mae lle i wella'r wybodaeth a adroddir wrth y bwrdd

### Er bod strwythurau llywodraethu partneriaethau yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd, mae gan y Bwrdd Iechyd linellau atebolrwydd clir a threfniadau rheolaidd i graffu ar berfformiad

- 72 Er mwyn i'r trefniadau fod yn effeithiol, mae angen cael llinellau atebolrwydd clir, a threfniadau rheolaidd i graffu ar berfformiad wrth gynllunio i ryddhau cleifion. Mae hyn yn bwysig er mwyn sicrhau ffocws parhaus i wella prosesau rhyddhau a chynnal llif cleifion drwy ysbytai.
- 73 O fewn y Bwrdd Iechyd, nodir cyfrifoldebau dros gynllunio i ryddhau cleifion yn y polisi rhyddhau. Er bod pawb yn gyfrifo am gynllunio i ryddhau cleifion, adroddodd uwch reolwyr mai rheolwyr ward a thimau clinigol sy'n gyfrifol am sicrhau bod y polisi'n cael ei weithredu yn y modd cywir. Mae gan y Cyfarwyddwr Gweithrediadau Cysylltiol, sy'n adrodd yn uniongyrchol wrth y Prif Weithredwr, gyfrifoldeb strategol dros gynllunio i ryddhau cleifion a llif cleifion, a thros ddatblygu ac ysgogi'r Cynllun Gofal Brys a'r cynllun gaeaf integredig.
- 74 Ym mis Mehefin 2016, cynhaliodd yr Uned Gyflawni adolygiad sicrwydd o'r Bwrdd Iechyd. Amlygai'r adolygiad ddiffyg rheolaeth gadarn er mwyn cyflawni rhaglen y Bwrdd Iechyd i newid gofal heb ei drefnu. Mewn ymateb i hyn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu strwythur llywodraethu i gyflawni'r Cynllun Gofal Brys, sydd yn cael ei gyflawni drwy'r Gydweithrediaeth Gofal Brys. Mae'r gydweithrediaeth yn gyfrifol am fonitro ac am roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd Gofal Brys, sydd yn gyfrifol yn strategol am nodi meysydd gwella â blaenoriaeth, ac am oruchwylio'r meysydd hynny. Gyda chefnogaeth ABCi, mae adrannau a chyfarwyddiaethau'r Bwrdd Iechyd yn gyfrifol gyflawni'r cynlluniau gwella.
- 75 Ar lefel uwch, bydd aelodau bwrdd yn derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y CTCI, sy'n cynnwys perfformiad yn erbyn targedau Llywodraeth Cymru, a chynnydd o ran y rhaglenni newid gwasanaeth, gan gynnwys gofal brys ac argyfwng. Mae'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad yn craffu ar adroddiad tebyg yn rhan o'u hadolygiad o berfformiad. Mae adolygiad y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn rhoi'r newyddion diweddaraf am bwysau'r gaeaf, ac mae'r Pwyllgor Partneriaeth a Llesiant Cyhoeddus yn derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf am fentrau partneriaethol fel cynnydd y CGI a'r llwybr integredig i bobl hŷn.
- 76 Yn rhan o'n gwaith asesu strwythuredig yn 2016, gofynnwyd i aelodau bwrdd ar draws y saith bwrdd iechyd ac Ymddiriedolaeth y GIG Felindre i ba raddau yr oeddent yn cytuno â sawl datganiad ynghylch llif cleifion a chynllunio i ryddhau cleifion. Canfu ein harolwg o aelodau bwrdd fod 9 o 11 o aelodau bwrdd (82%) a ymatebodd naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf bod y Bwrdd a'i bwyllgorau yn craffu'n rheolaidd ar effeithiolrwydd cynlluniau rhyddhau. Gellir cymharu hyn â 56% ar draws Cymru.
- 77 Mae cynlluniau rhyddhau da yn dibynnu ar allu sefydliadau partner i gydweithio, yn ogystal â her fewnol, felly dylai trefniadau i graffu ar y cyd hefyd fod wedi'u sefydlu. Sefydlwyd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent ym mis Ebrill 2016, yn rhan o ofynion y Ddeddf Gwasanaethau

Cymdeithasol a Llesiant. Mae grŵp arweinyddiaeth ranbarthol sy'n cynnwys uwch swyddogion ym meysydd iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector yn cefnogi'r bwrdd. Mae gan y bwrdd partneriaeth dair prif flaenoriaeth. Dwy o'r prif flaenoriaethau yw'r llwybr pobl hŷn a gofalwyr, y mae'r naill a'r llall yn berthnasol wrth gynllunio i ryddhau cleifion.

- 78 Ceir amryw o fyrddau partneriaeth yn rhanbarth Gwent, er enghraifft, Cyd-bwyllgor Eiddilwch Gwent, Bwrdd Cyfarpar Cymunedol Integredig Gwent a'r Bwrdd Gofal Brys. Ar adeg ein hadolygiad, roedd y strwythur llywodraethu ranbarthol yn cael ei adolygu. Diben yr adolygiad yw sefydlu strwythur llywodraethu cliriach, osgoi ail-wneud gwaith a sicrhau goruchwyliaeth briodol ar gyfer pob maes lle ceir cydweithio. Buom yn adolygu papur briffio, a nodai bum opsiwn i'w hystyried gan y bwrdd partneriaeth ranbarthol yn ei gyfarfod ym mis Medi 2016. Yr opsiwn a ddatblygwyd oedd lleihau nifer y cyrff integreiddio a'u halinio â'r meysydd a nodwyd yn rhan 9 o Ddeddf y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

## **Mae'r Bwrdd Iechyd yn casglu data cynhwysfawr ar berfformiad, ac er bod aelodau'r bwrdd yn teimlo eu bod yn derbyn digon o wybodaeth, byddent yn elwa ar fwy o ddata ar lif cleifion**

- 79 I ddibenion monitro ac adrodd, mae'n hanfodol cael yr wybodaeth gywir am berfformiad wrth gynllunio i ryddhau cleifion. Achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal yw'r unig fesuriad cenedlaethol, ar gyfer sefydliadau'r GIG ac awdurdodau lleol, felly ceir monitro, adrodd a chraffu rheolaidd ar y mesuriad hwnnw. Nid oes unrhyw fesurau cenedlaethol eraill yn gysylltiedig â chynllunio i ryddhau cleifion, ac mae'r wybodaeth am ansawdd ac effeithiolrwydd cynllunio i ryddhau cleifion yn hygyrch.
- 80 Fodd bynnag, er mwyn deall oedi wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty, dylai sefydliadau'r GIG yn ôl arfer da gael cyfres o fesurau perfformiad, gan gynnwys gwybodaeth am brofiadau a chanlyniadau cleifion yn sgil y broses ryddhau. Gall y rhain fod yn gymysgedd o fesurau meddal a chaled.
- 81 Yn rhan o'n hadolygiad, buom yn edrych ar y math o wybodaeth am berfformiad a adroddir wrth grwpiau gweithredol a'r Bwrdd neu ei is-bwyllgorau fydd o gymorth i fwrw goleuni ar berfformiad cynllunio i ryddhau cleifion, a pha mor rwydd y mae cleifion yn llifo drwy'r system ysbytai. Yn **Nangosyn 9** gwelir y dangosyddion perfformiad a'r diweddariadau a adroddwyd wrth y Bwrdd yn BIP Aneurin Bevan.

## Dangosyn 9: ystod yr wybodaeth am berfformiad a adroddwyd wrth y Bwrdd yn ystod 2016-17

Mae'r tabl uchod yn dangos yr wybodaeth am berfformiad a oedd yn gysylltiedig â chynllunio i ryddhau cleifion a llif cleifion a gyflwynwyd gerbron y Bwrdd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Cynllunio i ryddhau cleifion	Llif cleifion
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mesuriadau oedi wrth drosglwyddo gofal</li> <li>Diweddariadau ar y 10 cynllun newid gwasanaeth a nodir yn y CTCL, gan gynnwys mentrau'r cynllun gofal brys, fel: <ul style="list-style-type: none"> <li>– rhaglen y ward enghreifftiol;</li> <li>– trawsnewid y llwybr gofal triniaethau dydd;</li> <li>– recriwtio cydgysylltwyr rhyddhau;</li> <li>– recriwtio rheolwyr llif gweithredol; a</li> <li>– gweithio gyda Chyfarwyddwyr Clinigol a'r Dirprwy Gyfarwyddwr Meddygol i wella a chyflymu'r amseroedd asesu a rhyddhau.</li> </ul> </li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>% y cleifion sy'n aros llai na 4 awr ym mhob un o'r cyfleusterau Damweiniau ac Achosion Brys nes cael eu trosglwyddo, eu derbyn neu eu rhyddhau.</li> <li>% yr amseroedd ymateb ambiwlans brys i alwadau categori coch hyd at ac yn cynnwys 8 munud.</li> <li>Nifer y trosglwyddiadau ambiwlans dros awr o hyd.</li> <li>Nifer y cleifion sy'n aros am 12 awr neu fwy ym mhob un o'r cyfleusterau Damweiniau ac Achosion Brys nes cael eu trosglwyddo, eu derbyn neu eu rhyddhau.</li> </ul>

Ffynhonnell: Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o bapurau a gyflwynwyd gerbron y Bwrdd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

- 82 Fel y manylir ar baragraff 75, bydd pwyllgorau'r Bwrdd hefyd yn derbyn adroddiadau proses yn gysylltiedig â llif cleifion a gwaith integredig. Yn ogystal â gwybodaeth lefel uchel, mae'r Bwrdd Iechyd yn cynhyrchu adroddiadau gweithredol fesul awr, dydd ac wythnos, sydd yn helpu i gynllunio'r galw a'r capasiti, a chanfod meysydd i'w gwella. Defnyddir yr adroddiadau i ddarparu gwybodaeth i'r Arweinwyr Gweithredol, y timau gweithredol a'r cyfarfodydd rheoli gwelyau (cyfarfodydd safle).
- 83 Mewn ymateb i'n harolwg aelodau bwrdd:
- Roedd 7 o 11 o aelodau bwrdd (64%) naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth i deall y ffactorau sy'n effeithio ar lif cleifion, o gymharu â chyfartaledd Cymru o 75%; ac
  - roedd 10 o 11 o aelodau bwrdd (91%) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn deall y rhesymau dros oedi wrth ryddhau cleifion o ysbytai o fewn eu sefydliad, o gymharu â chyfartaledd Cymru o 82%.
- 84 Dyma wybodaeth bellach a fyddai'n ddefnyddiol er mwyn deall perfformiad wrth gynllunio i ryddhau cleifion yn arbennig, ond nad yw'n cael ei hadrodd gerbron Bwrdd Aneurin Bevan ar hyn o bryd:
- nifer a % y cleifion yr amcanwyd dyddiad rhyddhau ar eu cyfer;
  - aidderbyniadau cyn pen 28 diwrnod ar ôl rhyddhau o'r ysbyty;
  - % sy'n cael eu rhyddhau cyn hanner dydd;
  - % sy'n cael eu rhyddhau gyda'r nos, heb i hynny fod wedi'i gynllunio; a'r



- % sy'n cael eu rhyddhau cyn pen 24 awr a 72 awr yn dilyn datganiad eu bod yn feddygol iach.

85 Gofynnwyd i sefydliadau'r GIG pa wybodaeth y gellid ei chasglu am eu systemau gweinyddu cleifion. Yn **Nangosyn 10** gwelir bod gan y rhan fwyaf o systemau gweinyddu cleifion y gallu i gipio ystod o ddata er mwyn helpu i gynllunio i ryddhau cleifion. Fodd bynnag, ychydig llai na hanner ohonynt sydd yn cynnwys y gallu i gofnodi a yw proses ryddhau yn syml neu'n gymhleth.

### Dangosyn 10: meysydd data ar systemau gweinyddu cleifion sefydliadau'r GIG yn gysylltiedig â'r broses ryddhau

Mae'r tabl yn dangos mai amrywiaeth gyfyng o ddata y gellir ei chofnodi ar y rhan fwyaf o systemau gweinyddu cleifion y GIG yn gysylltiedig â'r broses ryddhau i gefnogi gwaith monitro gweithredol. Fodd bynnag, ychydig llai na hanner y systemau a all gasglu gwybodaeth ynghylch a yw proses ryddhau yn syml neu'n gymhleth.

Meysydd data ar systemau gweinyddu cleifion sydd yn gysylltiedig â'r broses ryddhau	Nifer sefydliadau'r GIG sy'n ymateb yn gadarnhaol
Dyddiad rhyddhau disgwylidig	12
Dyddiad rhyddhau o'r ysbyty	12
Amser rhyddhau o'r ysbyty	12
Cyrchfan ar ôl rhyddhau ee, cartref yr unigolyn, cartref preswyl, cartref gofal ac ati.	12
Dyddiad datgan bod y claf yn feddygol iach i'w ryddhau	8
A yw'r achos o ryddhau yn syml neu'n gymhleth	5

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o wybodaeth am gynllunio i ryddhau cleifion a ddychwelwyd gan gyrrff y GIG yn 2017 (**Gweler Troednodyn 6**)

86 Gall y Bwrdd lechyd gofnodi'r holl ddata a gyflwynir yn **Nangosyn 10**, drwy ddefnyddio cyfuniad o systemau electronig a phapur. Dywedodd nyrsys ward wrthym fod yn rhaid iddynt gwblhau cofnodion gofal cleifion. Gwybodaeth bersonol sydd ar dudalen gyntaf y cofnod, hanes meddygol y claf a'i weithgareddau beunyddiol sydd yn yr ail adran, a phwrpas y drydedd adran yw trafod rhyddhau. Fodd bynnag, nid oedd yr adran olaf yn cael ei defnyddio rhyw lawer. Cyflwynodd y Bwrdd lechyd fyrdau (gwyn) cynllunio i ryddhau cleifion ar yr holl wardiau. Ar y bwrdd, cofnodir enw'r claf, ei fwrdeistref, ei oedran, ei feddyg ymgynghorol, ei atgyfeiriad a'i weithgareddau beunyddiol. Fodd bynnag, roedd gan nyrsys ward deimladau cymysg ynglŷn â'r byrdau. Roedd rhai yn hoff ohonynt, ac eraill o'r farn eu bod yn anymarferol. Mae'r Bwrdd lechyd yn treialu system electronig, lle ceir llechen gyfrifiadurol ar gyfer pob gwely sy'n arddangos gwybodaeth am y claf. Mae'r Bwrdd lechyd yn ystyried gweithredu'r system hon ym mhob rhan o'r Bwrdd erbyn diwedd eleni.




## Mae'r data'n dangos bod perfformiad yn amrywio, ac er bod prosesau ryddhau'n cael eu gwella, gallai fod yn rhy fuan i weld y manteision

- 87 Cynhaliodd yr Uned Gyflawni ei hadolygiad o waith cynllunio i ryddhau cleifion yn y Bwrdd Iechyd ym mis Mehefin 2016. Ers hynny mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu ei Gynllun Gofal Brys, y manylir arno ym mharagraff 16. Nod y cynllun yw gwella perfformiad yn erbyn targedau'r adran achosion brys a phrofiad cleifion. Er bod y Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno rhai gwelliannau cadarnhaol, mae'r Cynllun Gofal Brys mewn cyfnod cynnar yn ei ddatblygiad, ac mae'n rhy fuan i gynnig sylwadau ynghylch ei effaith gyffredinol ar gynllunio i ryddhau cleifion.
- 88 Yn **Nangosyn 11** gwelir bod nifer yr achosion o OwDG yn amrywio bob mis rhwng mis Ebrill 2015 a mis Ebrill 2017. Er bod y perfformiad mewn rhai misoedd yn well na'r perfformiad mewn misoedd eraill, ni welir unrhyw duedd tuag at welliant parhaol ers adolygiad yr Uned Gyflawni o gynllunio i ryddhau cleifion ym mis Mehefin 2016. Priodolir y gyfran fwyaf o achosion o OwDG i resymau'n gysylltiedig â dewis cartref gofal neu aros am le mewn cartref gofal. Cododd y gyfran a briodolwyd i'r rhesymau hyn o 25% yn 2015-16 i 31% yn 2016-17. Dros yr un cyfnod, cafwyd gostyngiad o 34% yn 2015-16 i 26% yn 2016-17 yng nghyfran yr achosion o oedi a briodolwyd i resymau gofal iechyd. Parhaodd cyfran yr oedi a briodolwyd i resymau gofal cymunedol yn gyson ar 23% yn 2015-16, a 22% yn 2016-17.
- 89 Er bod cyfanswm yr achosion o OwDG (ac eithrio'r rhai sydd mewn cyfleusterau iechyd meddwl) wedi gostwng 12% o 907 yn 2015-16 i 799 yn 2016-17, a bod nifer y cleifion sy'n wynebu 13 neu fwy o wythnosau o oedi yn gostwng, mae nifer y cleifion sy'n wynebu rhwng 4 a 12 wythnos o oedi ar gynnydd (**Dangosyn 12**).

**Dangosyn 11: tueddiadau oedi wrth drosglwyddo gofal (ac eithrio cyfleusterau iechyd meddwl) rhwng mis Ebrill 2015 a mis Ebrill 2017**

Mae'r siart yn dangos bod nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn codi a gostwng; er bod perfformiad yn well mewn rhai misoedd, nid yw'r duedd gyffredinol yn dangos gwelliant parhaus yn y niferoedd.

Nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal (ac eithrio cyfleusterau iechyd meddwl)



Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o [gronfa ddata trosglwyddo gofal GIG Cymru](#), Mai 2017

**Dangosyn 12: newid yn nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal (ac eithrio cyfleusterau iechyd meddwl) yn ôl hyd yr oedi rhwng 2015-16 a 2016-17**

Mae'r tabl yn dangos y newid yn nifer yr achosion o oedi cyn trosglwyddo gofal yn ôl hyd yr oedi ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, a bod nifer y cleifion sy'n wynebu rhwng 4 a 12 o wythnosau o oedi ar gynydd.

Hyd yr oedi	Nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal		Newid canrannol yn nifer yr achosion o OwDG (%)
	2015-16	2016-17	
0-3 wythnos	565	425	-25%
4-6 wythnos	188	207	10%
7-12 wythnos	97	121	25%
13-26 wythnos	52	45	-13%
26+ wythnos	5	1	-80%
<b>Cyfanswm OwDG</b>	<b>907</b>	<b>799</b>	<b>-12%</b>


Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o [gronfa ddata trosglwyddo gofal GIG Cymru](#), Mai 2017

- 90 Dros yr un cyfnod, gwelir yn **Nangosyn 13** fod cyfran y cleifion sy'n disgwyl dros 12 awr yn yr adran Damweiniau ac Achosion Brys wedi codi yn Ysbyty Brenhinol Gwent a bod y perfformiad hwnnw'n waelach na chyfartaledd Cymru. O gymharu ag Ysbyty Brenhinol Gwent, ceir llai o achosion o fynd heibio'r trothwy 12 awr yn Ysbyty Neuadd Nevill, ac mae'r perfformiad yn codi a gostwng yn uwch ac yn is na chyfartaledd Cymru.

**Dangosyn 13: cyfran o gleifion y Bwrdd Iechyd oedd yn gorfod disgwyl dros 12 awr yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys o gymharu â chyfartaledd Cymru rhwng mis Ebrill 2015 a mis Mawrth 2017**

O gymharu â chyfartaledd Cymru, dengys y siart fod cyfran uwch o gleifion ar y cyfan yn aros am 12 awr neu fwy yn adrannau achosion brys Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, yn ysbyty Brenhinol Gwent ac Ysbyty Neuadd Nevill.

Cyfran y cleifion sy'n aros am 12 awr neu fwy yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys




Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru [o'r Amser a Dreulir mewn Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys: Gwybodaeth Reoli Fiol](#), Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, Mawrth 2017

- 91 Disgwylir i gyrff y GIG leihau hyd arosiadau ar gyfer derbyniadau meddygol brys. Mesurir perfformiad ar sail cyfnod treigl o 12 mis (mae'r perfformiad a adroddir yn unrhyw fis felly'n cynrychioli cyfartaledd y 12 mis blaenorol, y hytrach na pherfformiad yn ystod y mis hwnnw). Yn **Nangosyn 14** ychydig o newid a welir o ran cyfartaledd treigl hyd yr arosiadau ar gyfer derbyniadau meddygol brys dros y ddwy flynedd ddiwethaf, ac mae hyd yr arosiadau'n gyson is na chyfartaledd Cymru.

**Dangosyn 14: tueddiadau'r hyd arhosiad cyfartalog (diwrnodiau) ar sail cyfnod treigl o 12 mis ar gyfer derbyniadau brys ar gyfer wardiau meddygol cyfun rhwng mis Ebrill 2015 a mis Mawrth 2017**

Ychydig o newid a welir yn y siart o ran cyfartaledd treigl hyd yr arosiadau ar gyfer derbyniadau meddygol brys dros y ddwy flynedd ddiwethaf, ac mae hyd yr arosiadau yn gyson is na chyfartaledd Cymru.

Cyfartaledd 12 mis treigl hyd arosiadau (mewn diwrnodiau) derbyniadau brys meddygaeth gyfunol



Sylwer nad yw echel Y yn dechrau ar sero.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata effeithlonrwydd GIG Cymru gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, Mawrth 2017

# Atodiad 1

## Canfyddiadau meintiol Uned Gyflawni GIG Cymru o archwiliadau o gynlluniau rhyddhau yn ysbytai aciwt y Bwrdd Iechyd.

Dangosyn 15: statws CAG<sup>16</sup> asesiad yr Uned Gyflawni o dystiolaeth ysgrifenedig mewn nodiadau achos yn erbyn gofynion penodol a nodir yn Passing the Baton<sup>17</sup>

Mae'r tabl yn dangos bod dystiolaeth ysgrifenedig yn gysylltiedig â'r broses rhyddhau cleifion yn wael gan amlaf o'i hasesu yn erbyn arferion disgwyliedig.

Proses ryddhau	Arferion disgwyliedig	Ysbyty Brenhinol Gwent (YBG)	Ysbyty Neuadd Nevill (YNN)
<b>Cam 1</b> Yr holl achosion rhyddhau, cyn pen 24 awr ar ôl derbyn cleifion	Nodir a yw'r broses ryddhau yn syml/gymhleth wrth dderbyn i'r ysbyty, neu'n fuan wedyn.		
	Bydd rhywun yn sgwrsio â'r claf i'w holi sut yr oedd yn ymdopi cyn cael ei dderbyn i'r ysbyty, fel bo modd nodi unrhyw ofynion ar gyfer rhyddhau, a chynllunio ar gyfer hynny, o'r dyddiad derbyn.		
	Bydd rhywun yn sgwrsio â phrif ofalwr y claf (lle bo'n briodol) er mwyn nodi unrhyw ofynion rhyddhau yn fuan ar ôl derbyn y claf i'r ysbyty.		
	Nodir cyflyrau hirdymor wrth dderbyn y claf i'r ysbyty, a sefydlir canfyddiad y claf o'i statws cyfredol.		
	Nodir y trefniadau presennol ar gyfer cydgysylltu gofal a chefnogi yn y gymuned.		
	Darperir gwybodaeth ysgrifenedig i gleifion a'u teuluoedd ynghylch yr hyn y dylent ei ddisgwyl o'r broses ryddhau, a'r hyn a ddisgwylir ganddynt hwythau.		
<b>Cam 2</b> Achosion rhyddhau cymhleth	Cynhelir sgysiau buan â darparwyr gwasanaeth presennol er mwyn nodi unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg, ac ymdrin â'r materion hynny mewn modd rhagweithiol.		
	Nodi'r cydgysylltydd gofal cyfredol.		
	Mewn achosion rhyddhau cymhleth, bydd y claf a'r gofalwr yn cael manylion cyswllt y gweithiwr proffesiynol a enwebir i weithredu fel eu cydgysylltydd gofal.		

<sup>16</sup> Mae'r system goleuadau traffig CAG (coch, ambr, gwyrdd) yn darparu cod lliw i ddangos lle mae perfformiad yn is na'r optimwm.

<sup>17</sup> Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd, Passing the Baton, 2008

Proses ryddhau	Arferion disgwylidiedig	Ysbyty Brenhinol Gwent (YBG)	Ysbyty Neuadd Nevill (YNN)
	Mewn achosion rhyddhau cymhleth, trefnir cynhadledd achos gan y tîm amlddisgyblaeth i ystyried asesiadau a chytuno ar gynllun rhyddhau gyda'r claf/gofalwr.		
<b>Cam 3</b> Bob tro wrth ryddhau	Wedi sefydlu amcan o'r dyddiad rhyddhau (ADRh).		
	Mae'r ADRh yn ystyriol o gamau aciwt ac adsefydlu, lle bo'n berthnasol.		
<b>Cam 4</b> Bob tro wrth ryddhau	Cyfathrebir yn glir â'r claf a'i deulu/ofalwyr ynghylch yr ADRh.		
	Gellir addasu'r ADRh yn unol ag ymateb yr unigolyn i driniaeth, er mwyn pennu dyddiad rhyddhau realistig.	Ceir tystiolaeth fod hyn yn digwydd ond dim ond yn 35% (YBG) ac 16% (YNN) o'r nodiadau achos a adolygwyd y gwelwyd tystiolaeth bod ADRh wedi'i gofnodi.	
	Caiff cynlluniau rhyddhau eu hadolygu'n ddyddiol, ac fe geir tystiolaeth o gamau a gwblhawyd.		
	Nodir cyfyngiadau posibl a gweithredir yn eu sgil/cyfeirir y materion hynny i lefel uwch		
	Mae'r claf a'i deulu/ofalwyr yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd am gynnydd y cynllun rhyddhau.		
Achosion rhyddhau cymhleth	Ystyrir llwybrau amgen yn y gymuned er mwyn hwyluso rhyddhau ynghynt a chynyddu annibyniaeth hyd yr eithaf.		
	Ystyrir y model 'rhyddhau/trosglwyddo i asesu' ym mhob achos rhyddhau cymhleth.		
	Y cydgysylltydd gofal yn casglu asesiad amserol gan y tîm amlddisgyblaeth.		
	Caiff cynllun rhyddhau ei ddylunio'n arbennig gyda'r claf/gofalwr, gan adlewyrchu cryfderau'r claf a'r hyn sydd bwysicaf iddo.		
	Ystyrir darpariaeth y trydydd sector lle bo'n briodol.		
	Lle bo angen, trefnir cyfarfodydd amlddisgyblaeth mewn modd amserol (ee, i drafod y lleoliad nesaf a phennu cymhwystra CIC).		
	Os oes angen lleoliad mewn cartref gofal, rhoddir gwybodaeth glir i'r claf a'r gofalwr am gategori'r cartref gofal y dylent fod yn chwilio amdano'.		
	Gwybodaeth am gartrefi gofal yn yr ardal.		
	Gwybodaeth am y Polisi Dewis		
	Gwybodaeth am sut y gallant gael cymorth i chwilio am gartref addas os oes angen hynny (ee, y trydydd sector)		

Proses ryddhau	Arferion disgwylidig	Ysbyty Brenhinol Gwent (YBG)	Ysbyty Neuadd Nevill (YNN)
<b>Cam 5</b> Bob tro wrth ryddhau	Cwblheir rhestr wirio er mwyn sicrhau bod yr holl agweddau ymarferol yn gysylltiedig â rhyddhau wedi'u hystyried.		

Ffynhonnell: Uned Gyflawni GIG Cymru, Archwiliad o'r Trefniadau i Ryddhau Cleifion ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Mehefin 2016



# Atodiad 2

## Dull archwilio

Cynhaliwyd ein hadolygiad o gynllunio i ryddhau cleifion ledled Cymru rhwng mis Chwefror a mis Mehefin 2017. Nodir manylion ein dull o archwilio isod.

### Dangosyn 16: methodoleg archwilio

Mae'r tabl yn dangos ystod y gweithgareddau a gyflawnwyd yn rhan o'r broses archwilio.

Dull	Manylion
Ffurflen Casglu Data – Cynllunio i Ryddhau Cleifion (Gwybodaeth lefel y Bwrdd lechyd)	<p>Ceisiwyd gwybodaeth ar lefel gorfforaethol ynghylch y graddau y rhennir blaenoriaethau wrth ryddhau cleifion a throsglwyddo gofal; y gwasanaethau neu'r timau sydd ar gael i gefnogi rhyddhau cleifion yn brydlon; tirlun gwasanaethau cymunedol; hyfforddiant i gefnogi'r broses o gynllunio i ryddhau cleifion; rheoli perfformiad yn gysylltiedig â chynllunio i ryddhau cleifion; a'r graddau y rhennir gwybodaeth am wasanaethau addasu tai â sefydliadau'r GIG. Defnyddiwyd yr wybodaeth a ddychwelwyd i gefnogi'r archwiliad cynllunio i ryddhau cleifion, ac astudiaeth yr Archwilydd Cyffredinol o addasiadau tai.</p> <p>Cwblhaodd a chyflwynodd y Bwrdd lechyd y ffurflen casglu data ym mis Ebrill 2017.</p>
Ffurflen Casglu Data – Lolfa Ryddhau	<p>Gofynnwyd i sefydliadau'r GIG a oedd yn gweithredu gwasanaethau lolfa ryddhau i ddisgrifio pob lolfa ryddhau. Gofynnwyd am yr oriau gweithredu, y proffil staffio, nifer y cleifion yr oedd y lolfa yn ei gynnwys a'r amgylchedd i gleifion.</p> <p>Cyflwynodd y Bwrdd lechyd ddwy ffurflen, y naill ar gyfer Ysbyty Brenhinol Gwent a'r llall ar gyfer Ysbyty Neuadd Nevill.</p>
Ffurflen Casglu Data – Tîm Cyswllt Rhyddhau Cleifion.	<p>Gofynnwyd i sefydliadau'r GIG sôn wrthym am y tîm cyswllt rhyddhau os oedd y timau hynny i'w cael. Gofynnwyd am wybodaeth ynghylch oriau gweithredu, y proffil staffio, costau'r tîm/gwasanaeth a natur ei weithgarwch.</p> <p>Lle'r oedd sawl tîm cyswllt rhyddhau yn gweithredu, byddai un ffurflen yn cael ei llenwi ar gyfer pob prif ysbyty aciwt os oedd y timau'n gweithredu'n annibynnol ar ei gilydd. Os oedd y tîm cyswllt rhyddhau cleifion yn gweithredu fel un gwasanaeth integredig, byddai un ffurflen yn cael ei chwblhau.</p> <p>Cyflwynodd y Bwrdd lechyd un ffurflen ar gyfer y Gwasanaeth Nyrsys Cyswllt Rhyddhau; mae'r gwasanaeth yn ymdrin â safleoedd ysbyty cymunedol ac aciwt.</p>

Dull	Manylion
Cais am ddogfennau	<p>Buom yn adolygu dogfennau gan y Bwrdd Iechyd a drafodai strategaethau a chynlluniau ar gyfer rheoli llif cleifion a gofal heb ei drefnu, polisiâu'n gysylltiedig â rhyddhau cleifion, trosglwyddo gofal a dewis cartref, llwybrau rhyddhau, cynlluniau gweithredu i wella prosesau cynllunio i ryddhau cleifion a llif cleifion ac adroddiadau ar berfformiad, gan gynnwys rhai yn gysylltiedig â phrofiad y claf neu wybodaeth am gwynion a digwyddiadau'n gysylltiedig â phrosesau rhyddhau. Dibynnwyd hefyd ar wybodaeth yn yr adroddiadau a luniwyd ar gyfer Llywodraeth Cymru gan bob bwrdd iechyd neu bartneriaeth ranbarthol, a roddai grynodedeb o'r defnydd a wnaed o'r Gronfa Gofal Canolraddol, ac effaith y gronfa honno, yn 2015-16.</p>
Cyfweiliadau	<p>Buom yn cyfweld â nifer o aelodau staff, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfarwyddwr Gweithrediadau Cysylltiol</li> <li>• Cyfarwyddwr Effeithlonrwydd ac Effeithiolrwydd Cysylltiol</li> <li>• Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddorau</li> <li>• Nyrs Ranbarthol (Cymuned)</li> <li>• Aelod Annibynnol o'r Bwrdd (Gwasanaethau Cymdeithasol)</li> <li>• Cynrychiolydd o'r Cyngor Iechyd Cymunedol</li> </ul> <p>Cyfarfuom hefyd â grŵp o staff nyrsio ward, a oedd yn gyfrifol am gynllunio i ryddhau cleifion.</p>
Defnydd o ddata presennol	<p>Defnyddiwyd ffynonellau gwybodaeth sy'n bodoli eisoes, lle'r oedd hynny'n bosibl, fel gwaith yr Uned Gyflawni o 2016 ar gynllunio i ryddhau cleifion, data o wefan <a href="#">StatsCymru</a> ar gyfer nifer yr achosion o oedi cyn trosglwyddo gofal, gwelyau ysbyty, staff, derbyniadau, cleifion sy'n treulio 12 awr neu fwy mewn adrannau damweiniau ac achosion brys a hyd arosiadau.</p>

# Atodiad 3

## Ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i'r argymhellion

### Dangosyn 17: ymateb y rheolwyr

Mae'r tabl yn dangos argymhellion yr adroddiad a'r camau y mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu eu cymryd i ymdrin â'r rhain.

Cyf	Argymhelliad	Canlyniad / budd a fwriadwyd	Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy)	Wedi'i dderbyn (ydy/nac ydy)	Ymateb y Rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog Cyfrifol
A1	Datblygu cyfarpar ategol ar gyfer y prif llwybrau rhyddhau ar ffurf briodol, er enghraifft, siart lif neu dabl. Dylid datblygu'r dogfennau ar y cyd â sefydliadau partner a'u hatodi i'r polisi diwygiedig.	Mae gan bob aelod o staff sy'n ymwneud â chynllunio i ryddhau yn hyddysg yn y llwybrau rhyddhau, ac yn eu cymhwyso mewn modd cyson.	Ydy	Ydy	<p>Camau gweithredu a nodwyd:</p> <p>Mae'r dogfennau a'r llwybrau cyfredol wedi cael eu datblygu gyda phartneriaid, ond derbyniwn fod angen eu diweddarau, a bod angen mwy o eglurder i'r timau gweithredol. Er enghraifft, ar ein wardiau cleifion mewnol ceir siart lif ynghylch sut i ymgysylltu â thimau cymunedol ym maes iechyd a gofal ym mhob bwrdeistref.</p> <p>Drwy ein trefniadau cyd-bartneriaeth cyfredol, byddwn yn diweddarau'r wybodaeth a ddarperir gennym gan anelu i sicrhau bod yr wybodaeth</p>	Chwefror 2018	Nyrs Ranbarthol Gofal Cychwynnol a Chymunedol

Cyf	Argymhelliad	Canlyniad / budd a fwriadwyd	Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy)	Wedi'i dderbyn (ydy/nac ydy)	Ymateb y Rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog Cyfrifol
					honno'n glir ac yn ddefnyddiol i'r tîm. Bydd y grŵp yn ystyried sut i lansio'r wybodaeth hon er mwyn sicrhau ei bod yn creu'r effaith angenrheidiol.		
A2a	Ddatblygu canllawiau clir i nyrsys ar archebu trafndiaeth.	Archebir y math cywir o drafndiaeth i gleifion, fydd wedyn yn golygu na fydd yn rhaid i gleifion aros mor hir mewn lolfeydd rhyddhau.	Nac ydy	Ydy	Cytuno â'r argymhelliad, gan gydnabod bod proses wedi'i sefydlu i archebu trafndiaeth ar bob safle, oherwydd gwneir hynny bob dydd i'n cleifion drwy'r broses a gadarnhawyd gennym. Mae'r gwaith y mae angen i ni ei wneud fel bwrdd iechyd yn adlewyrchu trefniadau cyfathrebu gwell â'r holl dimau ward, fel eu bod yn deall sut i archebu trafndiaeth i'w cleifion. Byddwn yn bwrw ymlaen â hyn drwy nyrsys rhanbarthol, uwch nyrsys a rheolwyr ward.	Rhagfyr 2017	Nyrsys Rhanbarthol
A2b	Datblygu trefniadau gwell i gyfathrebu â'r gwasanaeth ambiwlans ar gyfer achosion nad ydynt yn rhai brys, fel bo modd i nyrsys roi gwybod i gleifion pa mor hir y maent yn debygol o orfod aros.	Gall staff lolfeydd rhyddhau gyfathrebu'n well â chleifion ynghylch amseroedd aros am drafndiaeth.	Ydy	Ydy	Gall ein swyddog cyswllt ar gyfer lolfeydd rhyddhau a thrafndiaeth i gleifion nad ydynt yn achosion brys roi amseroedd targed i gleifion sy'n gadael yr ysbyty. Bydd y Bwrdd Iechyd yn sicrhau bod y rhai sy'n gofalu am gleifion ar lefel y ward yn gofyn am ystod amser eu trafndiaeth fel bo	Rhagfyr 2017	Nyrsys Rhanbarthol

Cyf	Argymhelliad	Canlyniad / budd a fwriadwyd	Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy)	Wedi'i dderbyn (ydy/nac ydy)	Ymateb y Rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog Cyfrifol
					modd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i gleifion.		
A3a	Gynnwys Cynllunio i ryddhau cleifion yn rhan o raglenni ymsefydlu'r holl staff fydd yn ymwneud â chynllunio i ryddhau cleifion.	Mae gan staff newydd y sgiliau a'r wybodaeth gywir i gynllunio i ryddhau cleifion yn effeithiol.  Caiff polisïau a gweithdrefnau rhyddhau eu cymhwyso'n gyson.	Ydy	Ydy	Yn rhan o'r gwaith a gyflawnir mewn ymateb i argymhelliad 1, bydd y Bwrdd Iechyd yn sicrhau bod rhaglen hyfforddi a chyflenwi ar lwybrau rhyddhau yn cael ei chyflwyno i aelodau perthnasol o staff.	Ionawr 2018	Nyrs Adrannol Gofal Cychwynol a Chymunedol
A3b	Cynnig hyfforddiant gloywi rheolaidd i staff sy'n ymwneud â chynllunio i ryddhau cleifion.	Mae gan y staff wybodaeth gyfredol am brosesau a gweithdrefnau rhyddhau cleifion.	Nac ydy	Ydy	Gan dderbyn bod datblygiad proffesiynol yn rhywbeth parhaus, bydd y Bwrdd Iechyd yn sicrhau bod digwyddiadau hyfforddiant gloywi ar ryddhau cleifion yn cael eu cynnal o hyn allan.	Chwefror 2018	Cyfarwyddwr Gweithrediadau Cysylltiol
A3c	Er cysondeb, ystyried cynnig hyfforddiant i staff o sefydliadau partner eraill, sy'n cymryd rhan yn y broses o gynllunio i ryddhau cleifion.	Bydd gan staff o bob sefydliad sy'n ymwneud â chynllunio i ryddhau cleifion wybodaeth am brosesau a gweithdrefnau rhyddhau cleifion.	Nac ydy	Ydy	Byddwn yn cynnwys sefydliadau partner yn ein digwyddiadau hyfforddi, fel yr amlinellir yn argymhelliad 3b.	Chwefror 2018	Cyfarwyddwr Gweithrediadau Cysylltiol

Cyf	Argymhelliad	Canlyniad / budd a fwriadwyd	Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy)	Wedi'i dderbyn (ydy/nac ydy)	Ymateb y Rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog Cyfrifol
A4	Dylai'r Bwrdd Iechyd ystyried cynnwys gwybodaeth am amseroedd aros ar gyfer asesiadau anghenion ac i gychwyn gwasanaethau.	Bydd gwybodaeth ehangach am amseroedd aros ar gyfer gwasanaethau iechyd cymunedol a gofal cymdeithasol yn golygu bod modd cynllunio i ryddhau cleifion mewn modd mwy effeithlon.	Ydy	Ydy	<p>Mae'r Bwrdd Iechyd yn derbyn bod angen cyfathrebu'n well ynghylch amseroedd aros pan geir oedi wrth ryddhau cleifion. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd yn cipio ac yn cyflwyno'r wybodaeth bob dydd drwy ei system cudd-wybodaeth fusnes. Defnyddir hon gan y timau gweithredol o gronfa ddata'r rhestrau achosion cymhleth.</p> <p>Y camau gweithredu felly fydd cynnwys mwy o fanylion ynghylch hyn yn ein hadroddiad ar lif cleifion a sicrhau bod yr wybodaeth hon yn cael ei defnyddio gan y bwrdd gofal brys. Bydd y Bwrdd Iechyd hefyd yn sicrhau yr adroddir am hyn drwy grwpiau rheoli clinigol yr ysbyty, gan fod cyfarfodydd wedi'u hen sefydlu i drafod ar lefel gymunedol, gan gynnwys proses gadarn gofal iechyd parhaus sy'n adolygu achosion o oedi.</p>	Rhagfyr 2017	Cyfarwyddwr Gweithrediadau Cysylltiol

# Atodiad 4

## Gweithgareddau a gyflawnir gan dimau cyswllt rhyddhau cleifion

Yn rhan o'r adolygiad hwn, gofynnwyd i'r byrddau iechyd pa mor aml y byddai eu timau cyswllt rhyddhau cleifion yn cyflawni amrywiaeth o weithgareddau'n gysylltiedig â chynllunio i ryddhau, o beidio byth a'u cyflawni hyd at eu cyflawni drwy'r amser. Yn **Nangosyn 18** gwelir pa mor aml y cyflawnir y gweithgareddau hyn gan y 15 o dimau cyswllt rhyddhau cleifion ledled Cymru.

**Dangosyn 18: pa mor aml y bydd y timau cyswllt rhyddhau cleifion yn cyflawni amrywiaeth o weithgareddau**

Dengys y tabl hwn pa mor aml y bydd yr 15 o dimau cyswllt rhyddhau cleifion yn cyflawni amrywiaeth o weithgareddau.

Gweithgareddau cynllunio i ryddhau cleifion	Pa mor aml yr adroddwyd bod timau cyswllt rhyddhau cleifion yn cyflawni'r gweithgareddau a ganlyn				
	Bob amser	Yn aml	Weithiau	Yn anaml	Byth
Cymryd rhan mewn rhawdiau ward neu gyfarfodydd amlddisgyblaeth.	33%	40%	20%	7%	0%
Staff cymorth yn nodi cleifion bregus a allai wynebu oedi	53%	40%	7%	0%	0%
Sicrhau bod cynlluniau rhyddhau unigol ar waith i gleifion ag anghenion cymhleth.	60%	27%	13%	0%	0%
Cysylltu â chyrrff cyhoeddus eraill i rwyddhau'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty ac osgoi aildderbyniadau.	60%	27%	7%	7%	0%
Creu man cyswllt canolog ar gyfer ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol.	67%	33%	0%	0%	0%

Gweithgareddau cynllunio i ryddhau cleifion	Pa mor aml yr adroddwyd bod timau cyswllt rhyddhau cleifion yn cyflawni'r gweithgareddau a ganlyn				
	Bob amser	Yn aml	Weithiau	Yn anaml	Byth
Gweithio gyda rheolwyr gweithredol i ddatblygu mesurau perfformiad ar gyfer rhyddhau cleifion o ysbytai.	27%	20%	40%	7%	7%
Dilysu data ar oedi cyn trosglwyddo gofal	87%	7%	0%	0%	7%
Darparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu i staff clinigol ar ryddhau cleifion mewn modd amserol.	33%	13%	40%	13%	0%
Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i reolwyr gwely ynghylch rhyddhau cleifion.	67%	20%	0%	7%	7%
Darparu cyngor a chymorth ynghylch opsiynau tai i gleifion a'u teuluoedd.	27%	27%	20%	7%	20%
Cyfeirio cleifion a'u teuluoedd i dderbyn cyngor a chefnogaeth er mwyn parhau i fyw'n annibynnol gartref.	33%	27%	27%	7%	7%

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o wybodaeth am gynllunio i ryddhau cleifion a ddychwelwyd gan gyrrff y GIG yn 2017 ([Gweler Troednodyn 6](#))



Swyddfa Archwilio Cymru  
24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun.: 029 2032 0660

E-bost: [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

Gwefan: [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)

Wales Audit Office  
24 Cathedral Road  
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: [info@audit.wales](mailto:info@audit.wales)

Website: [www.audit.wales](http://www.audit.wales)